GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Wedi'i Gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r Prif Swyddog Nyrsio




# Fframwaith Galluoedd a Hyfforddiant Amlbroffesiynol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant, Carchardai a Dalfeydd yng Nghymru



**Fersiwn 1.0**

**Dyddiad adolygu: Ionawr 2028**

# Cynnwys


**Crynodeb gweithredol** 4

**Cyflwyniad** 4

**Pwrpas a Chwmpas** 4

**Elfennau Allweddol** 5

- **Maes A: Adnabod Penderfynyddion Ehangach Iechyd** 5
- **Maes B: Ymgysylltu â Phobl sy'n profi nifer o anfanteision** 5
- **Maes C: Y Pum Piler o Ymarfer** 5
- **Strwythur y Fframwaith** 5
- **Gweithredu a Defnyddwyr** 5
- **Casgliad** 5

**Cyflwyniad a Chefndir** 6

- **Diffiniad o Iechyd cynhwysiant** 7
- **Gwasanaethau Iechyd Carchardai a Dalfeydd** 7

**Cwmpas a Phwrpas** 8

- **Ar gyfer pwy mae'r fframwaith a sut gellir ei ddefnyddio?** 8
- **Yr Aelod Staff** 9
- **Y Rheolwr Llinell/Goruchwyliwr** 9
- **Y Comisiynydd/Sefydliad/Gwasanaeth** 10
- **Y Darparwr Addysg a Hyfforddiant** 10

**Beth yw Galluoedd?** 11

- **Strwythur y Fframwaith** 11
- **Y Galluoedd Allweddol** 12

**Y Galluoedd Allweddol: Gwybodaeth (G) a Sgiliau (S)** 16

**MAES A**
**Adnabod y ffactorau ehangach sy'n pennu iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd** 16

1. Cydnabod penderfynyddion ehangach iechyd wrth gydnabod yr anghydraddoldebau posibl sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd 16
2. Glynu wrth ddeddfwriaeth, polisi a strategaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd 17
3. Adnabod sut mae epidemioleg yn effeithio ar wasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd 18
4. Ymwybyddiaeth o gymhwysedd diwylliannol 19

**MAES B**
**Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision a dysgu ganddyn nhw wrth lywio'r system gofal iechyd a gweithio amlbroffesiynol a chydweithredol 20**

5. Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision a dysgu o'u profiadau bywyd 20
6. Llywio'r system gofal iechyd 21
7. Gweithio amlbroffesiynol mewn partneriaeth a chydweithrediad ar draws ffiniau sefydliadol 23
8. Eiriol dros grwpiau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd a chleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau 24

**MAES C**
**Pileri Ymarfer 25**

**Ymarfer Clinigol 25**

9. Cyfathrebu'n effeithiol o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd 25
10. Ymarfer yn broffesiynol, yn foesegol ac yn gyfreithiol o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd 27
11. Adnabod a hyrwyddo gofal wedi'i lywio gan dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth 29
12. Adnabod a hyrwyddo gofal sy'n ystyriol o drawma 33
13. Cefnogi llesiant staff y gwasanaeth iechyd cynhwysiant, a chynnal goruchwyliaeth glinigol adferol mewn perthynas â hwy. 35
14. Ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol ac unrhyw risgiau posibl o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd 36

**Addysg 38**

15. Cymryd rhan weithredol yn eich dysgu eich hun ac eraill 38

**Ymchwil 39**

16. Cymhwyso data, ymchwil a gwerthuso 39
17. Galluogi datblygiadau a gwelliannau gwasanaeth 40

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth 41**

18. Darparu arweinyddiaeth 41

**Strategy 42**

19. Cyfrannu at strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, dylunio a gweithredu polisïau ar gyfer iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd 42

**Atodiadau 43**

**Atodiad 1 Adnoddau Allweddol 43**

**Atodiad 2 Rhestr wirio ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a nodiadau myfyriol 44**

**Atodiad 3 Cyflyrau sy'n ymddangos mewn cleifion sy'n profi nifer o anfanteision mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd 46**

**Atodiad 4: Sut y datblygwyd y Fframwaith 47**

**Atodiad 5: Cydnabyddiaethau 48**

# Crynodeb gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r galluoedd, yr wybodaeth a'r sgiliau allweddol ar gyfer staff gofal iechyd aml-broffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sydd â nifer o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol difrifol sy'n gorgyffwrdd, yn enwedig mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd ac mewn cymunedau yng Nghymru.— Gall hyn gynnwys pobl sy'n profi digartrefedd, ffoaduriaid, carcharorion a'r rhai sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, pobl â dibyniaeth ar sylweddau, ac eraill sy'n wynebu nifer o anfanteision. Mae nifer o anfanteision yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd gwaeth, gan gynnwys disgwyliad oes byrrach, cyfraddau uwch o salwch cronig, a chyflyrau iechyd meddwl cynyddol.

Wedi'i ddatblygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a grŵp llywio amlasiantaeth sy'n cynnwys staff cynhwysiant iechyd rheng flaen a chyrff llywodraethu. Mae'r fframwaith yn mynd i'r afael â'r bwlch presennol mewn galluoedd ffurfiol o ran sgiliau a gwybodaeth ar gyfer staff gofal iechyd sydd eu hangen i ofalu am grwpiau agored i niwed.

## Pwrpas a Chwmpas

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio ar gyfer staff clinigol amlbroffesiynol—cynorthwywyr gofal iechyd, nyrsys, meddygon teulu, fferyllwyr, ac eraill—sy'n gweithio ar draws sefydliadau cyhoeddus, annibynnol, a'r trydydd sector, yn ogystal â gwasanaethau iechyd carchardai a dalfeydd.

Mae'n darparu set strwythuredig o alluoedd, sgiliau a gwybodaeth i:

- Lywio anghenion iechyd cymhleth a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.
- Cydweithio'n effeithiol â gofal cymdeithasol, cyfiawnder, tai, a sectorau eraill.
- Darparu gofal teg ac integredig i boblogaethau agored i niwed.
- Darparu llwybr dilyniant ar gyfer datblygu gyrfa mewn gwasanaethau iechyd grwpiau agored i niwed.

Mae sgiliau a gwybodaeth arbenigol y tu allan i gwmpas y fframwaith hwn. Nid yw'n bwriadu efelychu'r galluoedd a geir mewn unrhyw fframweithiau gallu neu gymhwysedd penodol eraill.

## Elfennau Allweddol

Mae dau faes gallu craidd yn sail i'r fframwaith:

### Maes A: Adnabod Penderfynyddion Ehangach Iechyd

Deall sut mae tlodi, anghydraddoldeb a pholisi yn llunio canlyniadau iechyd.

### Maes B: Ymgysylltu â Phobl sy'n profi nifer o anfanteision

Meithrin sgiliau ymarferol i gefnogi unigolion agored i niwed a meithrin cydweithio traws-sector.

### Maes C: Y Pum Piler o Ymarfer

Mae'r fframwaith wedi'i ategu gan bum piler o ymarfer clinigol




## Strwythur y Fframwaith

- **19 o alluoedd allweddol** wedi'u trefnu ar draws y ddau faes craidd a phum piler ymarfer.
- **Pedair lefel o ymarfer**: Hanfodol, Estynedig, Uwch, Ymgynghorol—yn darparu llwybr dilyniant clir o gymwyseddau lefel mynediad i arweinyddiaeth strategol.*
- Cydnabyddir bod angen galluoedd ychwanegol ac unigryw **ar wasanaethau iechyd carchardai a dalfeydd.** Felly, mae'r fframwaith hwn yn nodi galluoedd allweddol sy'n berthnasol yn gyffredinol i'r holl staff ochr yn ochr â galluoedd ychwanegol sy'n berthnasol yn benodol i'r staff hynny sy'n gweithio o fewn gwasanaethau iechyd carchardai a dalfeydd.

## Gweithredu a Defnyddwyr

Mae'r fframwaith yn cefnogi:

- **Staff clinigol** mewn gofal uniongyrchol i gleifion, nodi anghenion datblygu personol a chynlluniau datblygu personol wedi'u teilwra.
- **Rheolwyr llinell** wrth arwain datblygiad staff.
- **Comisiynwyr gwasanaethau a sefydliadau** ym maes cynllunio'r gweithlu, dylunio gwasanaethau a gwella ansawdd.
- **Darparwyr addysg** wrth ddatblygu rhaglenni hyfforddiant perthnasol.

## Casgliad

Mae'r fframwaith hwn yn adnodd cynhwysfawr i feithrin gallu ar draws gweithlu gofal iechyd Cymru. Drwy ymgorffori arfer cynhwysol mewn gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd cyfiawnder, ei nod yw lleihau anghydraddoldebau iechyd, gwella canlyniadau i bobl sy'n profi nifer o anfanteision, a hyrwyddo gofal integredig sy'n canolbwyntio ar y person.

**Nid yw lefel yr ymarfer yn adlewyrchu bandiau tâl / lefelau bandio agenda ar gyfer newid*

# Cyflwyniad a Chefndir

**Mae pawb yng Nghymru yn haeddu'r cyfle i gael iechyd da. Fodd bynnag, mae rhai yn byw mewn iechyd gwaeth, gan fyw bywydau byrrach. Er bod blociau adeiladu iechyd y tu allan i ofal iechyd, mae gofal iechyd sylfaenol yn darparu atal, ymyrraeth gynnar a lliniaru effeithiau'r achosion ehangach.**

Mae'r cysyniad o 'iechyd cynhwysiant' yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth nad oes gan bawb fynediad cyfartal at ofal iechyd o ansawdd uchel. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod pobl sy'n profi nifer o anfanteision yn aml yn wynebu nid yn unig mynediad cyfyngedig ond hefyd brofiadau a chanlyniadau gofal iechyd gwaeth. Mae diwallu anghenion iechyd yr unigolion hyn a'u cymunedau yn parhau i fod yn her. Mae gan y boblogaeth hon ganlyniadau iechyd gwaeth a ragwelir a disgwyliad oes byrrach na'r boblogaeth gyfartalog. Mae cyfraddau marwolaethau rhwng wyth a deuddeg gwaith yn uwch mewn unigolion sy'n profi nifer o anfanteision, mae clefydau cronig chwe gwaith yn uwch ac mae cyflyrau iechyd meddwl bum gwaith yn uwch[1].Gall y cymhlethdod hwn weithiau wneud i staff deimlo nad oes ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol, a gall hyn arwain yn anfwriadol at rwystrau i'r rhai sydd angen mynediad at y gofal iechyd sydd ei angen arnynt a gallant deimlo eu bod wedi'u stigmateiddio. Ar hyn o bryd mae dibyniaeth fawr ar ofal eilaidd a brys a llai o fynediad at atal gan gynnwys sgrinio, deintyddiaeth ac imiwneiddio sydd i gyd yn effeithiol ac yn cael effaith ar arferion gofal sylfaenol. Nid yw astudiaethau diweddar[2] wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o adrannau'r llywodraeth na sefydliadau cenedlaethol yn amlinellu cynllun i sicrhau bod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ofalu am gymunedau agored i niwed. Mae'r dystiolaeth a gyhoeddwyd gan sefydliadau sy'n cyflogi staff i weithio gyda grwpiau agored i niwed yn nodi bod yn rhaid i lawer o ymarferwyr gofal iechyd ennill yr wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau sy'n profi nifer o anfanteision yn effeithiol.

Sefydlodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyda chefnogaeth Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a grŵp o randdeiliaid â diddordeb gan gynnwys arbenigwyr iechyd cynhwysiant, ymarferwyr iechyd y cyhoedd o sefydliadau iechyd y cyhoedd, annibynnol a'r trydydd sector, Coleg Brenhinol y Nyrsys, Llywodraeth Cymru a Sefydliad Nyrsio'r Frenhines, ymarferwyr clinigol uwch a charchardai ledled Cymru Grŵp Llywio i ddatblygu set o safonau gwybodaeth a sgiliau i alluogi staff gofal iechyd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau sy'n profi nifer o anfanteision yn effeithiol. Dyma'r *'fframwaith galluoedd a hyfforddiant amlbroffesiynol ar gyfer gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd yng Nghymru' sy'n deillio o hyn.'*

1 A national framework for NHS-action on inclusion health NHS England 2023

2 Inclusion Health: Education and Training for Health Professionals-End of Study Report DOH

## Diffiniad o Iechyd cynhwysiant

Mae iechyd cynhwysiant yn gysyniad sy'n disgrifio gwasanaethau a gynlluniwyd ar gyfer pobl sy'n profi nifer o anfanteision difrifol sy'n gorgyffwrdd, gan ei chael hi'n anodd yn aml i gael mynediad at ofal iechyd er gwaethaf profi iechyd corfforol a meddyliol gwael iawn o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Gall hyn yn aml arwain at rwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd gwael. Gall unigolion a grwpiau sy'n agored i niwed ac mewn mwy o berygl, neu risg luosog, o anghydraddoldebau iechyd gynnwys (nid rhestr gynhwysfawr yw hon):

- pobl sy'n profi digartrefedd gan gynnwys cysgu ar y stryd, syrffio soffas, a byw mewn llety dros dro
- pobl sy'n ceisio lloches
- ffoaduriaid
- gweithwyr mudol agored i niwed
- mudwyr heb ddogfennau neu wedi'u masnachu
- pobl Roma, Sipsiwn, Teithwyr a phobl Cychod
- pobl sy'n ymwneud â gwaith rhyw
- dioddefwyr caethwasiaeth fodern
- unigolion â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol
- carcharorion, troseddwyr, cyn-droseddwyr, a'r rhai sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol

Mae nifer gynyddol o wasanaethau cynhwysiant iechyd pwrpasol sy'n cynnig gofal sylfaenol i bobl sy'n profi nifer o anfanteision wedi'u sefydlu yng Nghymru ochr yn ochr â gwasanaethau iechyd carchardai a dalfeydd..

## Gwasanaethau Iechyd Carchardai a Dalfeydd

Mae carchardai a dalfeydd yn grŵp sydd wedi'i gynnwys mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant. Cydnabyddir yn y fframwaith hwn fod darparu gwasanaethau iechyd i'r grŵp hwn, o'i gymharu â gwasanaethau iechyd cynhwysiant eraill, yn wahanol ac yn unigryw. Mae carchardai'n cyflogi amrywiaeth o ymarferwyr clinigol amlbroffesiynol gan gynnwys nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd, fferyllwyr a thechnegwyr fferyllfa, gyda meddygon teulu, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ymweld ac mae angen yr wybodaeth a'r sgiliau ar bob un ohonynt i ofalu am y grŵp hwn o unigolion.

O fewn y fframwaith hwn, dylai'r holl alluoedd allweddol fod yn berthnasol i holl staff iechyd carchardai a dalfeydd ac mae galluoedd ychwanegol wedi'u hychwanegu sy'n berthnasol yn benodol i'r staff hynny.

# Cwmpas a Phwrpas

Cwmpas y fframwaith hwn yw darparu galluoedd allweddol priodol o ran llwybrau addysg gwybodaeth a sgiliau ar gyfer staff clinigol amlbroffesiynol gan gynnwys cynorthwywyr gofal iechyd, sy'n gweithio gyda grwpiau cynhwysiant iechyd ac mewn cymunedau yng Nghymru sydd ag amddifadedd economaidd-gymdeithasol sylweddol. Mae'n cynnwys staff sy'n gweithio ym maes iechyd carchardai a dalfeydd. Boed yn gweithio yn y sector cyhoeddus, y sector annibynnol neu'r trydydd sector, gall gefnogi'r staff hynny i ddeall mwy am y galluoedd sydd eu hangen. Gall unigolion sy'n gweithio yn y sectorau hyn fod yn darparu cefnogaeth a chymorth, gofal clinigol a/neu driniaeth, i bobl y maen nhw'n cwrdd â nhw bob dydd. Gall hyn gynnwys iechyd, ond heb fod yn gyfyngedig i ofal cymdeithasol, cyfiawnder, addysg, tai, elusennau a llawer mwy. Mae amrywiaeth o sefydliadau'n rhyngweithio â'r rhai sy'n profi nifer o anfanteision ac felly byddant yn elwa o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r galluoedd allweddol sydd eu hangen.

Mae'r fframwaith yn disgrifio'r galluoedd sydd eu hangen i gefnogi pobl o bob oed sy'n profi nifer o anfanteision. Drwy gydol y ddogfen hon defnyddir y geiriau 'unigolyn/unigolion a defnyddiwr/ defnyddwyr gwasanaeth' i gwmpasu plant, pobl ifanc, oedolion o oedran gweithio a phobl hŷn, yn ogystal â staff/gwirfoddolwyr a'u cydweithwyr.

Mae sgiliau a gwybodaeth arbenigol y tu allan i gwmpas y fframwaith hwn. Nid yw wedi'i fwriadu i efelychu'r galluoedd a geir mewn fframweithiau gallu neu gymhwysedd penodol eraill.

## Ar gyfer pwy mae'r fframwaith a sut gellir ei ddefnyddio?

Bwriad y fframwaith yw cefnogi'r holl staff clinigol amlbroffesiynol sy'n darparu gwasanaethau gofal sylfaenol ac sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn lleoliadau iechyd cynhwysiant a charchardai a dalfeydd, boed hynny yn y sector cyhoeddus, annibynnol neu'r trydydd sector. Mae hefyd wedi'i fwriadu ar gyfer staff sy'n ystyried gyrfa yn y sectorau hyn yn y dyfodol. Gall staff clinigol gynnwys cynorthwywyr gofal iechyd ac ymarferwyr clinigol amlbroffesiynol cofrestredig, y mae'r fframwaith yn anelu at roi iddynt y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â'u rolau. Bydd hefyd yn darparu set gefndirol gyflwyniadol o alluoedd allweddol ar gyfer gweithwyr iechyd clinigol proffesiynol sy'n darparu sesiynau a chlinigau ad hoc, galw heibio, neu reolaidd fel meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant. Mae'n berthnasol ar draws sbectrwm eang o staff clinigol hyd at aelodau staff sy'n dymuno deall mwy am gefnogi unigolion, gan gynnwys cydweithwyr, ar draws gwasanaethau iechyd cynhwysiant, hyd at gynorthwyo rheolwyr a goruchwylwyr i gynllunio hyfforddiant. Ar lefel fwy strategol, gall gwasanaethau, sefydliadau a chomisiynwyr ddefnyddio'r galluoedd allweddol i gefnogi dylunio gwasanaethau a rolau newydd. Bydd y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd eu hangen yn dibynnu ar y rôl.

## Yr Aelod Staff

Gellir defnyddio'r fframwaith hwn i'ch cynorthwyo i nodi eich gofynion datblygiad personol, pan fyddwch chi'n meddwl am sut rydych chi'n cefnogi unigolion a'ch cydweithwyr mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. Ei fwriad yw helpu i wella hyder a nodi bylchau hyfforddi unigol.

1. Ar eich pen eich hun, gyda rhywun rydych chi'n ei adnabod, neu gyda'ch rheolwr llinell neu oruchwyliwr, nodwch pa lefel o ymarfer sy'n adlewyrchu orau'r rôl sydd gennych ar hyn o bryd a thrwy weithio drwy'r fframwaith ystyriwch:
   - os oes gennych chi swydd-ddisgrifiad, pa alluoedd sy'n cael eu disgrifio fel rhai pwysig i'ch rôl bresennol?
   - pa alluoedd ydych chi'n credu sydd fwyaf angenrheidiol yn eich rôl? (Gallai hyn fod oherwydd eich bod chi'n rhyngweithio'n rheolaidd â phobl mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd.
   - Os ydych chi am ddatblygu eich gyrfa, oes yna alluoedd a fydd yn eich helpu i gefnogi unigolion yn well a gwella eich siawns o sicrhau'r cam nesaf hwnnw?
2. Casglwch y galluoedd sydd fwyaf priodol i'ch rôl mewn un lle ac:
   - aseswch a ydych chi eisoes wedi derbyn hyfforddiant, neu a oes gennych chi brofiad, ac felly'n teimlo'n hyderus yn y gallu. Efallai na fydd angen unrhyw ddatblygiad pellach arnoch yn y gallu hwn.
   - nodwch ble nad ydych wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ac nad oes gennych fawr ddim profiad neu ddim profiad o gwbl gan y gallai hyn fod yn angen datblygu i chi, nawr neu yn y dyfodol.
   - pan fyddwch wedi gorffen adolygu pob gallu, dylai hyn roi cipolwg da i chi ar eich cryfderau, a lle y gallech fod angen mwy o ddatblygiad. Wrth wneud hynny, byddwch wedi creu eich cynllun datblygu personol (CDP) eich hun.
3. Byddai'n synhwyrol nawr dod o hyd i rywun profiadol i'ch helpu i edrych ar eich CDP, gan roi cyfle i rannu eich gwybodaeth a'ch profiad mewn trafodaeth gefnogol. Gallai'r person hwn fod yn rheolwr llinell neu'n oruchwyliwr i chi ac efallai y bydd hefyd yn gallu eich cefnogi i nodi hyfforddiant, neu rywun i'ch helpu gyda datblygiad pellach.

## Y Rheolwr Llinell/Goruchwyliwr

Fel rheolwr llinell/goruchwyliwr aelod o staff, byddwch yn gwybod llawer am eu rôl a'r cyd-destun y maent yn gweithio ynddo. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi wneud yn siŵr eu bod wedi'u paratoi'n dda i fodloni gofynion eu rôl. Bydd y fframwaith hwn yn eich cynorthwyo i:

- cefnogi staff a allai brofi trawma yn eu rôl ac i helpu i feithrin gwydnwch
- deall polisi a deddfwriaeth gyfoes ynghylch cefnogi gwasanaethau iechyd teg mewn carchardai a dalfeydd.
- cefnogi staff i aros yn y gwaith, gan gynnwys cael sgyrsiau am eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain.
- cefnogi staff sy'n dychwelyd i'r gwaith.
- deall y ffordd orau o gyfeirio staff at y gwasanaethau sydd ar gael.

Yn ogystal, gellir defnyddio'r fframwaith i:

- adolygu'r addysg a'r hyfforddiant y gallai fod ei angen ar unigolyn yn ei rôl, neu o ganlyniad i thema sy'n dod i'r amlwg yn y gweithle/lleoliad gwirfoddol.
- gwneud gwelliannau a/neu ddiweddaru swydd ddisgrifiadau a manylebau person i ymgorffori galluoedd allweddol lle bo'n briodol i'r rôl.
- gwerthuso sgiliau ac ymddygiadau presennol pobl, gan gefnogi nodi anghenion hyfforddi, efallai fel rhan o arfarniad, goruchwylio rheolaidd, cyfarfodydd staff/gwirfoddolwyr a chyfarfodydd un-i-un.

## Y Comisiynydd/Sefydliad/Gwasanaeth

Gellir defnyddio'r Fframwaith i'ch cefnogi i ymgymryd â nifer o weithgareddau datblygu'r gweithlu i:

- datblygu iaith gyffredin ar draws eich tîm/gwasanaethau wrth siarad am ddatblygu sgiliau ac ymddygiadau i gefnogi gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. Mae'r fframwaith wedi defnyddio'r dogfennau deddfwriaethol, gweithdrefnol a chanllawiau mwyaf cyfredol.
- dylunio rolau newydd drwy ystyried pa feysydd sydd angen mynd i'r afael â nhw a'r galluoedd allweddol y gallai fod eu hangen ar y rôl i gefnogi eich poblogaeth darged. Gall y galluoedd allweddol helpu i arwain ble mae rôl yn eistedd - ochr yn ochr ag unrhyw ofynion allweddol eraill ar gyfer y rôl, megis lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb, a all hefyd olygu bod angen cofrestriad proffesiynol.
- cefnogi datblygiad swydd ddisgrifiadau a manylebau person, gan nodi'r sgiliau allweddol sydd eu hangen yn y rôl, a denu, recriwtio a dewis y bobl gywir ar gyfer y rôl.
- cefnogi unigolion i greu eu cynllun datblygu personol yn ystod yr arfarniad a defnyddio'r allbynnau ar gyfer dadansoddiad ehangach o anghenion hyfforddi ar draws gwasanaeth neu sefydliad.
- cynorthwyo sefydlu canolfan addysg a hyfforddiant ganolog, i gefnogi'r ddarpariaeth o'r galluoedd allweddol gofynnol yn y fframwaith, ehangu argaeledd, a sicrhau safonau cyson ar gyfer datblygu gweithlu gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd cynhwysfawr a throsglwyddadwy.
- darparu sail ar gyfer manylebau gwasanaeth i sefydliadau ddangos arfer da a gorau.

## Y Darparwr Addysg a Hyfforddiant

Gall y fframwaith helpu i wella cysondeb addysg a hyfforddiant a ddarperir drwy ddisgrifio'r sgiliau a'r wybodaeth allweddol sydd eu hangen i gefnogi unigolion sy'n gweithio ym maes gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd.

Fel darparwr addysg a hyfforddiant, bydd y fframwaith hwn yn eich cynorthwyo i:

- nodi unrhyw fylchau yn yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd i staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd.
- dylunio a chyflwyno rhaglenni addysg a hyfforddiant a fydd yn sicrhau bod canlyniadau dysgu yn cyd-fynd â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi'r gweithlu i ddarparu cefnogaeth, gofal a thriniaeth effeithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd.
- dylunio a chyflwyno cyfleoedd hyfforddi a datblygu sy'n canolbwyntio ar y galluoedd allweddol y mae angen i staff eu cyflawni a'u cynnal, gan helpu i sicrhau bod y strategaethau dysgu ac addysgu mwyaf priodol yn cael eu defnyddio.
- cyfrannu at atal dyblygu diangen wrth ddarparu addysg a hyfforddiant a chryfhau'r cymysgedd sgiliau a gwaith tîm ar draws gwasanaethau ac asiantaethau.

# Beth yw Galluoedd?

Mae'r fframwaith yn nodi'r **Galluoedd Allweddol** sy'n angenrheidiol ar gyfer gofal a chymorth diogel ac effeithiol:

At ddibenion y fframwaith hwn, rydym yn defnyddio'r diffiniad canlynol o alluoedd:

***Galluoedd yw'r priodoleddau (sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau) y mae unigolion yn eu cyfrannu at eu sefyllfa benodol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i fod yn gymwys ac y tu hwnt i hyn, i:***

- reoli newid
- bod yn hyblyg
- delio â sefyllfaoedd a all fod yn gymhleth neu'n anrhagweladwy ac uwchgyfeirio/atgyfeirio'n briodol i sicrhau diogelwch yr unigolyn
- parhau i wella sut rydym yn cefnogi eraill. (Skills for Health 2020)

Yn ymarferol, defnyddir y termau 'gallu' a 'chymhwysedd' yn helaeth mewn llenyddiaeth addysgol a datblygu pobl. Maent yn aml wedi cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, heb fawr o wahaniaeth clir rhyngddynt.

Mae gallu a chymhwysedd:

- yn ymwneud â 'beth all pobl ei wneud'
- yn disgrifio gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau
- gall fod yn ganlyniad addysg, hyfforddiant neu brofiad.

At ddibenion y fframwaith hwn, rydym yn defnyddio'r term 'Galluoedd' gan fod hyn yn disgrifio'r gallu i fod yn gymwys, ac i fod yn effeithiol mewn sefyllfaoedd a allai fod angen hyblygrwydd a chreadigrwydd.

*I'w nodi:*

*Rhaid pwysleisio nad oes disgwyl i staff amlbroffesiynol sy'n dechrau gweithio, neu sydd eisoes yn gweithio mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd, fod wedi cyflawni'r holl alluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y rôl eisoes, ond byddant yn parhau i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol wrth weithio yn y rôl, gan nodi unrhyw anghenion dysgu gyda'u rheolwr/goruchwyliwr a chael mynediad at yr amrywiol adnoddau hyfforddi a chymorth sydd ar gael.*

## Strwythur y Fframwaith

Mae'r fframwaith hwn yn mynegi'r galluoedd (h.y., y sgiliau a'r wybodaeth) sydd eu hangen i ddarparu cefnogaeth, gofal a thriniaeth, lle bo angen, i gleifion mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd, ac maent yn gyffredin ac yn drosglwyddadwy ar draws gwahanol gyd-destunau, mathau o ddarpariaeth gwasanaeth amlasiantaeth ac amlbroffesiynol.

Mae'r fframwaith wedi'i nodi gyda 2 'Faes' cychwynnol sydd wedi'u bwriadu i fod yr wybodaeth a'r sgiliau am iechyd cynhwysiant sy'n berthnasol i'r holl staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd.

# Y Galluoedd Allweddol

## MAES A

**Adnabod y ffactorau ehangach sy'n pennu iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd**

1. Cydnabod penderfynyddion ehangach iechyd wrth gydnabod yr anghydraddoldebau posibl sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd
2. Glynu wrth ddeddfwriaeth, polisi a strategaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd
3. Adnabod sut mae epidemioleg yn effeithio ar wasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd
4. Ymwybyddiaeth o gymhwysedd diwylliannol

## MAES B

**Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision, llywio'r system gofal iechyd a gweithio amlbroffesiynol a chydweithredol**

5. Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision a dysgu o'u profiadau bywyd er mwyn llywio ymarfer
6. Llywio'r system gofal iechyd
7. Gweithio amlbroffesiynol mewn partneriaeth a chydweithrediad ar draws ffiniau sefydliadol
8. Eiriol dros grwpiau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd a chleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau

## MAES C

**Yna mae'r fframwaith wedi'i ategu gan y pum piler cydnabyddedig o ymarfer clinigol sef:**




O fewn y fframwaith mae cyfanswm o 19 o alluoedd allweddol. Mae'r galluoedd allweddol wedi'u rhifo er hwylustod cyfeirio atynt. Nid yw hyn yn dynodi llwybr, proses na hierarchaeth ragnodedig.

## Strwythur Fframwaith

| Meysydd a Phileri | Galluoedd Allweddol |
|---|---|
| **MAES A**<br>Adnabod penderfynyddion ehangach iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd | **1.** Cydnabod penderfynyddion ehangach iechyd wrth gydnabod yr anghydraddoldebau posibl sy’n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd<br>**2.** Glynu wrth ddeddfwriaeth, polisi a strategaethau sy’n ymwneud â gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**3.** Adnabod sut mae epidemioleg yn effeithio ar wasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**4.** Ymwybyddiaeth o gymhwysedd diwylliannol |
| **MAES B**<br>Ymgysylltu â phobl sy’n profi nifer o anfanteision a dysgu ganddyn nhw, gan lywio’r system gofal iechyd a gweithio amlbroffesiynol a chydweithredol | **5.** Ymgysylltu â phobl sy’n profi nifer o anfanteision a dysgu o’u profiadau bywyd er mwyn llywio ymarfer<br>**6.** Llywio’r system gofal iechyd<br>**7.** Gweithio amlbroffesiynol mewn partneriaeth a chydweithrediad ar draws ffiniau sefydliadol<br>**8.** Eiriol dros grwpiau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd a chleifion sy’n defnyddio’r gwasanaethau |
| **MAES C**<br>**Pileri Ymarfer** | |
| **Ymarfer Clinigol** | **9.** Cyfathrebu’n effeithiol o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**10.** Ymarfer yn broffesiynol, yn foesegol ac yn gyfreithiol mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**11.** Adnabod a hyrwyddo gofal wedi’i lywio gan dystiolaeth ac sy’n seiliedig ar dystiolaeth<br>**12.** Adnabod a hyrwyddo gofal sy’n ystyriol o drawma<br>**13.** Cefnogi llesiant staff y gwasanaeth iechyd cynhwysiant, a chynnal goruchwyliaeth glinigol adferol mewn perthynas â hwy.<br>**14.** Ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol ac unrhyw risgiau posibl o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd |
| **Addysg** | **15.** Cymryd rhan weithredol yn eich dysgu eich hun ac eraill |
| **Ymchwil** | **16.** Cymhwyso data, ymchwil a gwerthuso<br>**17.** Galluogi datblygu a gwella gwasanaethau |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **18.** Darparu arweinyddiaeth |
| **Strategaeth** | **19.** Cyfrannu at strategaethau lleol a chenedlaethol, dylunio a gweithredu polisïau ar gyfer iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd |

## Diffinio Lefelau Ymarfer o fewn y Fframwaith

O fewn y pum piler ymarfer clinigol, mae'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd ar lefelau ymarfer o:

**Hanfodol (mae hyn yn cynnwys yr holl staff clinigol gan gynnwys Cynorthwywyr Gofal Iechyd ac ymarferwyr clinigol cofrestredig)**

**Estynedig**

**Uwch**

**Ymgynghorol**

Mae lefel ymarfer ymgynghorol wedi'i chynnwys fel datblygiad gyrfa posibl gan y bydd ymarferwyr clinigol uwch, dros amser, yn datblygu yn y pedwar piler ymarfer ac yn debygol o ymgymryd â mwy o rolau cenedlaethol a rhyngwladol, a chefnogi strategaeth mewn byrddau a sefydliadau iechyd. Mae datblygu rolau ymarferwyr clinigol estynedig, uwch ac ymgynghorol yn gofyn am gefnogaeth addysgol sylweddol er mwyn galluogi darparu gofal diogel o ansawdd uchel.

Mae'r rhain yn cyd-fynd â Fframwaith Proffesiynol AaGIC ar gyfer ymarfer estynedig, uwch ac ymgynghorol yng Nghymru (2023), y dylid ei ddarllen ar y cyd â'r fframwaith hwn.

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth gynhwysfawr, ffeithiol a damcaniaethol o fewn maes gwaith ac ymwybyddiaeth o ffiniau'r wybodaeth honno sy'n benodol i'r maes ymarfer hwn.<br><br>Dysgwr annibynnol.<br><br>Cydgrynhoi gwybodaeth a sgiliau yn ymarferol dan oruchwyliaeth ymarferwyr estynedig ac uwch.<br><br>Datrys problemau'n greadigol, gan lunio barn, dadansoddi a dehongli.<br><br>Cyfrannu'n weithredol at ddatblygu gwasanaeth a hunanddatblygiad.<br><br>Efallai y bydd ganddo oruchwyliaeth a hyfforddiant staff eraill.<br><br>Gallu defnyddio tystiolaeth a datblygu tystiolaeth. | ylfaen wybodaeth estynedig, sgiliau gwneud penderfyniadau cymhleth, cymhwysedd clinigol, a barn yn eu maes ymarfer arbenigol.<br><br>Ymreolaeth a barn eang ar draws maes arbenigol.<br><br>Gwerthuso gwybodaeth gymhleth a chyflawn yn feirniadol.<br><br>Cychwyn ac arwain tasgau a phrosesau, gan gymryd cyfrifoldeb, am waith a rolau eraill.<br><br>Gallu defnyddio tystiolaeth a datblygu tystiolaeth.<br><br>Dealltwriaeth feirniadol o wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol. | Sylfaen wybodaeth uwch.<br><br>Gwneud penderfyniadau cymhleth iawn a chymhwysedd a barn glinigol yn eu maes ymarfer arbenigol.<br><br>Ymreolaeth a barn eang ar draws maes gwaith sylweddol.<br><br>Gwerthuso gwybodaeth anghyflawn a chymhleth yn feirniadol.<br><br>Cychwyn a darparu arweinyddiaeth ar gyfer tasgau a phrosesau cymhleth o fewn eu maes gwaith eu hunain.<br><br>Dylunio a rheoli ymchwil ac adnabod cyfleoedd i wella gwasanaeth ac ansawdd.<br><br>Integreiddio canfyddiadau clinigol, addysgol ac ymchwil yn ymarferol.<br><br>Cyfrannu at greu strategaeth. | Sylfaen wybodaeth arbenigol.<br><br>Gwneud penderfyniadau cymhleth iawn a chymhwysedd a barn glinigol ym maes ymarfer arbenigol.<br><br>Ymreolaeth a barn eang.<br><br>Gwerthuso gwybodaeth anghyflawn a chymhleth yn feirniadol.<br><br>Arweinyddiaeth fel ymarferydd blaenllaw gydag arbenigedd a dylanwad clinigol.<br><br>Gwerthuso gwybodaeth anghyflawn a chymhleth yn arbenigol.<br><br>Dylunio ac arwain ymchwil sy'n arwain at newid sylweddol.<br><br>Gosod strategaeth mewn cydweithrediad â'r tîm.<br><br>Dylanwadu ar a gosod agendâu, strategaeth, cynllunio a darparu gwasanaethau lleol a chenedlaethol. |

*I'w nodi:*

*Disgwylir i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn rolau estynedig, uwch ac ymgynghorol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd fod wedi cyflawni'r holl alluoedd 'Hanfodol' ac yna adeiladu ar y galluoedd hyn wrth iddynt symud ymlaen ar bob lefel o ymarfer.*

*Pob gallu yw'r gallu lleiaf y gellir ei ddisgwyl yn hytrach na'r mwyaf.*

# Y Galluoedd Allweddol:

## Gwybodaeth (G) a Sgiliau (S)

**MAES A**

**Adnabod y ffactorau ehangach sy'n pennu iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd**

### 1. Cydnabod penderfynyddion ehangach iechyd wrth gydnabod yr anghydraddoldebau posibl sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd

**Gwybodaeth a sgiliau**

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **1a.** Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd anghydraddoldebau iechyd sy'n effeithio ar ymarfer clinigol. (G)<br><br>**1b.** Adnabod sut mae gwahaniaethu, stigma a rhwystrau systemig yn cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd. (G)<br><br>**1c.** Adnabod achosion anghydraddoldebau iechyd mewn gwasanaethau, profiad neu ganlyniadau cleifion. (G)<br><br>**1d.** Adnabod effaith ffactorau economaidd-gymdeithasol fel addysg, cyflogaeth, tai, tlodi a chefnogaeth gymdeithasol ar fywydau pobl ac ar ganlyniadau iechyd. (G)<br><br>**1e.** Adnabod pa unigolion a grwpiau sydd fwyaf agored i niwed wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd. (S)<br><br>**1f.** Ymwybyddiaeth o effaith cynhwysiant digidol a mynediad at wasanaethau a gwybodaeth iechyd i bobl sy'n profi nifer o anfanteision (G). | **1a.** Adnabod effaith polisïau a phenderfyniadau cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a sefydliadol fel ysgogiadau posibl sy'n achosi anghydraddoldeb mewn gofal iechyd. (G)<br><br>**1b.** Ymwybyddiaeth o strategaethau iechyd cenedlaethol a lleol a sut mae'r rhain yn cael eu gweithredu i gefnogi iechyd a llesiant pobl sy'n profi nifer o anfanteision. (G) | **1a.** Gallu dadansoddi sut mae polisïau ac ysgogiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd yn effeithio ar ddylunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth. (S)<br><br>**1b.** Cefnogi dylunio gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd ar gyfer pobl sy'n profi nifer o anfanteision. (S)<br><br>**1c.** Ymwybyddiaeth o sut mae'r modelau gofal traddodiadol yn cyflwyno rhwystrau diangen i bobl sy'n profi nifer o anfanteision, gan gyfrannu at erydiad ymddiriedaeth ac ehangu anghydraddoldebau iechyd. (G) | **1a.** Dylanwadu ar yr angen i ddatblygu gwasanaethau cynhwysiant ar gyfer cymunedau sy'n profi nifer o anfanteision, gwasanaethau iechyd carchardai a dalfeydd. (G) |

## 2. Glynu wrth ddeddfwriaeth, polisi a strategaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **2a.** Ymwybyddiaeth o bolisïau, strategaethau a deddfwriaeth lleol a chenedlaethol ym maes tegwch iechyd a chynhwysiant cymdeithasol. (G) | **2a.** Gwybodaeth ymarferol am bolisïau a deddfwriaethau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol cyfredol sy'n berthnasol i anghydraddoldebau iechyd a grwpiau iechyd cynhwysiant. (G)<br>**2b.** Gwybodaeth am y dulliau sydd ar gael ar hyn o bryd i asesu effaith polisïau ar anghydraddoldebau iechyd, megis asesiadau effaith ar gydraddoldeb a dyletswydd economaidd-gymdeithasol. (G)<br>**2c.** Eiriol dros bolisïau sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol poblogaethau agored i niwed. (S) | **2a.** Myfyrio'n feirniadol ar bolisïau neu strategaethau iechyd ac iechyd y cyhoedd i fynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i grwpiau iechyd cynhwysiant, ac awgrymu sut y gellid eu gwella. (S) | **2a.** Gosod strategaeth mewn cydweithrediad â'r tîm ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S)<br>**2b.** Dylanwadu a gosod agendâu a strategaeth leol a chenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S) |

## 3. Adnabod sut mae epidemioleg yn effeithio ar wasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

| Gwybodaeth a sgiliau | | | |
|---|---|---|---|
| **Hanfodol** | **Estynedig** | **Uwch** | **Ymgynghorol** |
| **3a.** Ymwybyddiaeth o'r hyn yw epidemioleg a sut mae problemau iechyd yn effeithio ar grwpiau sydd wedi'u hymylu ar draws pob oed. (G)<br>**3b.** Ymwybyddiaeth o dueddiadau iechyd y boblogaeth a'r penderfynyddion cymdeithasol sy'n dylanwadu arnynt o amgylch tueddiadau marwolaethau a morbidrwydd. (G)<br>**3c.** Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd codio grwpiau iechyd cynhwysiant mewn setiau data arferol fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer effeithio ar newid. (G) | **3a.** Gwybod am effaith modelau traddodiadol gofal iechyd ar gyfradd cyflwyniad hwyr salwch difrifol, clefydau heintus a chanlyniadau iechyd gwael. (G)<br>**3b.** Gwybod am effaith modelau traddodiadol gofal iechyd a'r effaith ar y defnydd o ofal heb ei drefnu. (G)<br>**3c.** Ymwybyddiaeth o sut mae clefyd neu gyflwr yn cael ei adnabod o fewn cyd-destun iechyd y cyhoedd a sut y gall profi neu sgrinio o fewn gwasanaeth alluogi datblygu llwybrau teg. (G) | **3a.** Gwybodaeth arbenigol am effaith modelau traddodiadol gofal iechyd ar gyfradd cyflwyniad hwyr salwch difrifol, clefydau heintus a chanlyniadau iechyd gwael ar wasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (G) | **3a.** Gwerthuso gwybodaeth ar epidemioleg problemau iechyd sy'n effeithio ar grwpiau sydd wedi'u hymylu ar draws pob oed yn arbenigol wrth ddatblygu gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd (S).<br>**3b.** Dylunio ac arwain ymchwil yn epidemioleg materion iechyd sy'n effeithio ar grwpiau sydd wedi'u hymylu ar draws pob oedran ar gyfer gwasanaethau iechyd cynhwysiant a charchardai. (S) |

## 4. Ymwybyddiaeth o gymhwysedd diwylliannol

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **4a.** Gwybod beth a olygir gan *gymhwysedd diwylliannol* a sut y gall helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a'i gymhwyso ym mhob darpariaeth gwasanaeth. (G)<br><br>**4b.** Cydnabod a pharchu cefndiroedd, credoau ac arferion diwylliannol amrywiol. (S)<br><br>**4c** Ymwybyddiaeth o sut y gall barn bersonol a rhagfarn ddiymwybod effeithio ar y rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaeth o gefndiroedd diwylliannol gwahanol. (G)<br><br>**4d.** Ymwybyddiaeth o sut y gall gwahanol gredoau diwylliannol effeithio ar gredoau ac ymddygiadau iechyd i helpu i osgoi camddealltwriaeth er mwyn galluogi ymarferwyr i ddarparu gofal gwell. (G)<br><br>**4e.** Addasu arddulliau cyfathrebu a chynlluniau triniaeth i gyd-fynd â dewisiadau diwylliannol. (S)<br><br>**4f.** Ymwybyddiaeth o sut mae egwyddorion hawliau dynol yn sail i gymhwysedd diwylliannol. (G)<br><br>**4g.** Ymwybyddiaeth o wrth-hiliaeth a dangos dull gwrth-hiliol (G/S)<br><br>**4h.** Dealltwriaeth o groestoriadedd a'i effaith ar anghydraddoldebau iechyd (G) | **4a.** Gwybod sut mae cymhwysedd diwylliannol yn berthnasol i'ch ymddygiad eich hun ond hefyd i systemau, prosesau a diwylliant sefydliadol a'r ffordd y darperir gofal iechyd i boblogaeth amrywiol. (G)<br><br>**4b.** Datblygu ymwybyddiaeth o naws diwylliannol ac ymyriadau wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned. (G) | **4a.** Arwain ar ddatblygu sgiliau cymhwysedd diwylliannol yn y gweithlu ehangach. (S) | **4a.** Dylanwadu ac arwain ar ddatblygu sgiliau cymhwysedd diwylliannol i'r gweithlu ehangach ar gyfer gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S)<br><br>**4b.** Arwain a galluogi diwylliant o welliant parhaus mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S)<br><br>**4c.** Darparu cyngor arbenigol ar gydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol. (G) |

MAES B

## Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision a dysgu ganddyn nhw wrth lywio'r system gofal iechyd a gweithio amlbroffesiynol a chydweithredol

### 5. Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision a dysgu o'u profiadau bywyd

**Gwybodaeth a sgiliau**

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **5a.** Ymgysylltu'n effeithiol â phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd sy'n profi nifer o anfanteision. (S)<br>**5b.** Ymgysylltu â chymunedau i gymryd rhan mewn hyrwyddo ac addysg iechyd. (S) | **5a.** Ymgysylltu'n weithredol â'r gymuned a chydag arbenigwyr profiadol i wella gwasanaethau cynhwysiant. (S) | **5a.** Cynnwys pobl sydd â phrofiad personol wrth gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau iechyd cynhwysiant. (S)<br>**5b.** Eiriol dros gyfranogiad gweithredol a chyd-gynhyrchu gydag arbenigwyr trwy brofiad (S) | **5a.** Arwain ar ddatblygu ymgysylltiad cymunedol, cynnwys profiadau bywyd yn weithredol, cydweithio a phartneriaeth o fewn eich gwasanaeth eich hun ac yn ehangach. (S)<br>**5b.** Datblygu a hwyluso rhwydweithiau effeithiol sy'n cynrychioli eich sefydliad eich hun ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er mwyn cyflawni arferion gwaith effeithlon ar draws y system iechyd ar gyfer gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S)<br>**5c.** Cydweithio ar draws ffiniau i gysylltu sefydliadau i ddatblygu a darparu cynhwysiant lleol a chenedlaethol cydlynol, gwasanaethau iechyd carchardai a dalfeydd a llwybrau defnyddwyr gwasanaeth. (S) |

## 6. Llywio'r system gofal iechyd

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **6a.** Ymwybyddiaeth o sut y gall stigma a gwahaniaethu gael eu hymgorffori mewn systemau a sut y gallant arwain at broblemau wrth lywio'r system gofal iechyd i bobl sy'n profi nifer o anfanteision (G)<br><br>**6b** Gallu cefnogi cleifion sy'n profi nifer o anfanteision i lywio a chael mynediad at wasanaethau a llwybrau atgyfeirio, gan gynnwys gwasanaethau'r trydydd sector a'r gymuned: er enghraifft, i wasanaethau tai a digartrefedd, clinigau iechyd rhywiol a rhaglenni brechu. (S)<br><br>**6c.** Ymwybyddiaeth o rôl ac argaeledd adnoddau ac asedau cymunedol, carchardai a dalfeydd, sefydliadau trydydd sector a rhwydweithiau cymorth lleol ehangach i gefnogi cleifion sy'n profi nifer o anfanteision. (G)<br><br>**6d.** Ymwybyddiaeth o ragnodi cymdeithasol fel ffordd o gysylltu pobl sy'n profi nifer o anfanteision ag asedau a gwasanaethau cymunedol lleol. (S)<br><br>**6e.** Cynghori cleifion sy'n profi nifer o anfanteision yn briodol ynghylch eu hawliau i ofal iechyd a gwasanaethau. (S) | **6a.** Gwybodaeth estynedig am sut y gall stigma a gwahaniaethu gael eu hymgorffori mewn systemau a sut y gall arwain at broblemau wrth lywio'r system gofal iechyd i bobl sy'n profi nifer o anfanteision. (G)<br><br>**6b** Adnabod rolau a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau wrth gefnogi cleifion sy'n profi nifer o anfanteision lle gall bylchau fodoli, a sut y gellir goresgyn y rhain. (S)<br><br>**6c.** Ymwybyddiaeth o'r hawliau i dai, opsiynau tai ac awdurdod lleol a chyfeirio neu atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth yn briodol. (G)<br><br>**6d.** Ymwybyddiaeth o statws a hawliau mewnfudo a chymhwyso o ran cyfeirio ac atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth. (G) | **6a.** Dangos ymrwymiad i hyrwyddo tegwch gofal iechyd drwy fynd i'r afael â rhwystrau systematig a strwythurol sy'n atal pobl â nifer o anfanteision rhag cael mynediad at wasanaethau a'u llywio. (S) | **6a.** Hyrwyddo llywio gwasanaethau iechyd gan sicrhau bod gan staff yr wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol i allu cyfeirio a chefnogi cleifion sy'n profi nifer o anfanteision. (S) |

## Galluoedd ychwanegol ar gyfer iechyd carchardai a dalfeydd

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **6e.** Ymwybyddiaeth o brosesau atgyfeirio mewnol a'u cyfyngiadau oherwydd natur strwythurau gwasanaeth iechyd carchardai a dalfeydd. (G) | | | |

## 7. Gweithio amlbroffesiynol mewn partneriaeth a chydweithrediad ar draws ffiniau sefydliadol

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **7a.** Dangos cydweithio effeithiol ar draws ystod eang o sefydliadau, timau a ffiniau i ddarparu gofal iechyd effeithiol. (S)<br><br>**7b.** Cynnal perthnasoedd rhyngbersonol da gyda thimau a sefydliadau eraill i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau, i ddiwallu anghenion pobl sy'n profi nifer o anfanteision, a chyflawni safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. (S)<br><br>**7c.** Ymgysylltu mewn gweithio amlbroffesiynol effeithiol a gwaith tîm amlasiantaethol.<br><br>**7d.** Adnabod atebolrwydd proffesiynol i sicrhau'r lefelau gofal gorau posibl sy'n cefnogi pontio ar draws gofal iechyd a ffiniau asiantaethau eraill yn esmwyth ac yn ystyrlon. (S) | **7a.** Dangos dulliau partneriaeth wrth gynnal ymgynghoriadau, meithrin diwylliant o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y claf, hyrwyddo'r cysyniad o hunanofal sy'n cael ei arwain gan y claf lle bo modd. (S)<br><br>**7b.** Gwybodaeth am bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth agos, neu fel rhan o dîm integredig, gyda gwasanaethau awdurdod lleol a'r trydydd sector ar gyfer dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y person o ran gwasanaethau cynhwysiant. (G) | **7a.** Gweithio gyda'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, partneriaid trydydd sector ac eraill, gan gymryd rhan weithredol wrth gynllunio a chyflawni mentrau amlasiantaeth sy'n hwyluso adferiad yn well mewn defnyddwyr gwasanaeth ac yn adeiladu ar asedau cymunedol o fewn y boblogaeth i wella iechyd a llesiant. (S)<br><br>**7b.** Dod ag arbenigedd dysgedig gweithwyr proffesiynol ynghyd â phrofiad bywyd cleifion, wedi'i ategu gan wneud penderfyniadau ar y cyd a chyd-gynhyrchu gwasanaethau i ddatblygu a darparu gwasanaethau i bobl sy'n profi nifer o anfanteision. (S)<br><br>**7c.** Cyfrannu at ddatblygu modelau gofal pwrpasol â ffocws amlbroffesiynol, ac sy'n briodol i anghenion grwpiau a defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi'u heithrio'n draddodiadol gan gysylltu gwasanaethau mewnol ac allanol. (S) | **7a.** Datblygu a chynnal partneriaethau effeithiol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol, gan gynnwys cymunedau lleol a grwpiau dan anfantais, er mwyn deall sut i ddiwallu eu hanghenion. (S)<br><br>**7b.** Gallu datblygu a hwyluso gweledigaeth a strategaeth a rennir ar draws asiantaethau. (S)<br><br>**7c.** Meithrin cydweithio a chyd-gynhyrchu, gan weithio gydag eraill i drawsnewid gwasanaethau a diwallu anghenion iechyd cynhwysiant lleol ar gyfer unigolion, grwpiau a'r gymuned ehangach. (S) |

## 8. Eiriol dros grwpiau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd a chleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **8a.** Eiriol dros anghenion a hawliau cleifion sy'n profi nifer o anfanteision wrth ymgymryd â chyfrifoldebau clinigol. (S) | **8a.** Eiriol yn barhaus dros anghenion a hawliau cleifion sy'n profi nifer o anfanteision wrth ymgymryd â chyfrifoldebau clinigol. (S) | **8a.** Gweithredu fel model rôl ac eiriolwr dros werthoedd sefydliadol a strategaethau cynhwysiant. (S) | **8a.** Eiriol dros werthoedd sefydliadol a strategaethau cynhwysiant ar lefel leol a chenedlaethol. (S) |

### Galluoedd ychwanegol ar gyfer iechyd carchardai a dalfeydd

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **8b.** Eiriol dros anghenion iechyd y carcharor, yn fewnol ac yn allanol wrth ei dderbyn a phan fydd yn gadael y carchar, neu'r ddalfa, er mwyn sicrhau parhad gofal. (S) | **8b.** Eiriol dros anghenion iechyd y carcharor, yn fewnol ac yn allanol wrth ei dderbyn a phan fydd yn gadael y carchar, neu'r ddalfa, er mwyn sicrhau parhad gofal. (S) | **8b.** Eiriol dros anghenion iechyd y carcharor, yn fewnol ac yn allanol wrth ei dderbyn a phan fydd yn gadael y carchar, neu'r ddalfa, er mwyn sicrhau parhad gofal. (S) | **8b.** Eiriol dros anghenion iechyd y carcharor, yn fewnol ac yn allanol wrth ei dderbyn a phan fydd yn gadael y carchar, neu'r ddalfa, er mwyn sicrhau parhad gofal. (S) |

## MAES C
## Pileri Ymarfer

### Ymarfer Clinigol

### Ymarfer yn broffesiynol, yn gyfreithiol ac yn foesegol o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

### 9. Cyfathrebu'n effeithiol o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

## Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **9a-** Ymwybyddiaeth o gyfathrebu sy'n ystyriol o drawma a sut y gall profiadau gwael pobl o ofal yn y gorffennol effeithio ar eu hymddygiad (G)<br><br>**9b-** Gallu ymateb mewn ffyrdd sy'n lleihau straen, ofn, neu deimladau di-rym yn ystod gofal (S).<br><br>**9a.** Dangos ystod o sgiliau cyfathrebu llafar a di-eiriau effeithiol, gan addasu'r rhain i ennill a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon ac ymdrin â phryderon wrth gynllunio a darparu gofal mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant. (S)<br><br>**9b.** Cyfleu gwybodaeth iechyd yn glir i wahanol gleifion sy'n profi nifer o anfanteision yn seiliedig ar eu hanghenion. (S) | **9a.** Dangos lefel uwch o gyfathrebu effeithiol sy'n ystyriol o drawma ac addasu cyfathrebu mewn sefyllfaoedd sy'n cynnwys anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cymhleth, er mwyn cael a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon wrth ddarparu gofal, a/neu weithio gyda gwasanaethau iechyd cynhwysiant. (S)<br><br>**9b.** Ymwybyddiaeth o ddulliau cyfathrebu di-drais (NVC) a sut y gall gynorthwyo pobl sy'n profi nifer o anfanteision. (G) | **9a.** Dangos lefel arbenigol o gyfathrebu sy'n ystyriol o drawma, gan addasu'r dull mewn anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cymhleth iawn, er mwyn cael a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon wrth gynllunio a darparu gofal mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant. (S)<br><br>**9b.** Dangos sgiliau ymgysylltu a chyfathrebu â chleifion uwch a gallu meithrin perthnasoedd therapiwtig â chleifion gan eu galluogi i wybod bod rhywun wedi gwrando arnynt gyda pharch a thrugaredd. (S) | **9a.** Hyrwyddo iaith ac ymddygiadau sy'n modelu ymrwymiad eich sefydliad i gynhwysiant, yn enwedig cyfathrebu sy'n ystyriol o drawma (S)<br><br>**9b.** Monitro'r iaith a'r ymddygiadau a ddefnyddir gan gydweithwyr i sicrhau eu bod yn cefnogi ymrwymiad eich sefydliad i gynhwysiant. (S)<br><br>**9c.** Trafod gwybodaeth berthnasol gyda chydweithwyr neu wasanaeth priodol mewn ffordd gryno a systematig, ar gyfer sefyllfaoedd cymhleth iawn sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd cynhwysiant a charchardai. (S) |

## Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **9c.** Gallu addasu cyfathrebu a dull gweithredu i grwpiau penodol, fel cleifion sy'n niwroamrywiol, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi cael diagnosis ffurfiol. (S)<br>**9d.** Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth berthnasol gyda gwasanaethau eraill. (S)<br>**9e.** Cymerwch amser i wrando ar bobl a allai fod ag amgylchiadau a straeon personol hynod ofidus er mwyn deall eu hanghenion. (S)<br>**9f.** Dangos empathi a gwrando'n weithredol i feithrin ymddiriedaeth. (S)<br>**9g.** Cofnodi dewisiadau cyfathrebu defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o nodiadau cleifion. (S)<br>**9h.** Gwybod sut i ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu wyneb yn wyneb, fideo a ffôn yn effeithiol mewn gofal cymdeithasol a chlinigol i unigolion nad ydynt yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. (S) | **9c.** Cymhwyso sgiliau cyfathrebu a negodi uwch, sy'n gofyn am empathi, sicrwydd a thrugaredd, gan addasu arddulliau cyfathrebu yn briodol gyda phobl sy'n profi nifer o anfanteision. (S)<br>**9d.** Defnyddio datrys problemau'n greadigol, dylanwadu a negodi i alluogi gwneud penderfyniadau ar y cyd wrth ddatblygu gofal, cynlluniau rheoli a gofal rhagflaenol gan gynnwys cleifion yn eu cynllun gofal. (S) | **9c.** Rhagweld, asesu a goresgyn ffiniau cyfathrebu a pherthnasoedd therapiwtig cyffredin gyda chleifion megis llythrennedd, iaith a chywilydd. (S)<br>**9d.** Adnabod yr angen am wahanol ddulliau o gyfathrebu a negeseua a'r angen am gyd-gynhyrchu ac ymgysylltu wrth ddatblygu gwasanaethau cynhwysiant. (G) | |

## Additional capabilities for prison and custody suite health

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **9i.** Ystyried effaith eich arddull gyfathrebu eich hun ar gydweithwyr a charcharorion er mwyn lleihau gwrthdaro posibl. (G) | | **9e.** Monitro cyfathrebu o fewn y tîm i nodi arddulliau cyfathrebu a allai arwain at wrthdaro rhwng aelodau'r tîm a chleifion. (G) | |

## 10. Ymarfer yn broffesiynol, yn foesegol ac yn gyfreithiol o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **10a.** Ymarfer yn unol â'r cod ymddygiad proffesiynol perthnasol ac o fewn terfynau eich cymhwysedd eich hun, cwmpas ymarfer a swydd ddisgrifiad, gan fod yn gyfrifol ac yn atebol am benderfyniadau, gweithredoedd a hepgoriadau. (S)<br>**10b.** Gweithredu ar farn broffesiynol ynghylch pryd i geisio cymorth, gan ddangos myfyrdod beirniadol ar eich ymarfer eich hun, hunanymwybyddiaeth, megis credoau, gwerthoedd, rhagdybiaethau, gyda deallusrwydd emosiynol cynhwysfawr a bod yn agored i newid. (S)<br>**10c.** Cydymffurfio â deddfwriaeth statudol a gofynion ymarfer yn eich maes gwaith ac yng nghyd-destun iechyd cynhwysiant. (S)<br>**10d.** Gallu herio unrhyw ymarfer gwahaniaethol a allai beryglu hawl cleifion i urddas, parch, diogelwch a hawliau dynol. (S)<br>**10e.** Dangos y gallu i gynnal cyfrinachedd cleifion mewn gwasanaethau cynhwysiant ac mewn lleoliadau gwarchodol yn unol â chanllawiau cyfreithiol, polisïau cenedlaethol a lleol. (S)<br>**10f.** Cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r gyfraith a chanllawiau proffesiynol a lleol. (G) | **10a.** Datblygu gofal gwasanaeth cynhwysiant yn barhaus trwy fyfyrio ar eich ymddygiad a'ch rôl eich hun, gan nodi ble i wella. (S)<br>**10b.** Ymrwymo a chyfrannu at ddatblygu a gwella arferion iechyd cynhwysiant eraill ym maes iechyd ac ar draws sectorau. (S)<br>**10c.** Cefnogi cydweithwyr i ddeall canllawiau cyfrinachedd a'u cymhwysiad o fewn lleoliadau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (G) | **10a.** Rhannu arferion da, trafod pryderon a chyfrifoldebau cyffredin wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion iechyd sy'n ymwneud â phobl sy'n profi nifer o anfanteision gydag ymarferwyr eraill yn lleol ac yn genedlaethol. (S) | **10a.** Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, rheoliadau'r diwydiant, polisïau sefydliadol a chodau proffesiynol, a sicrhau bod eraill yn cydymffurfio â hwy. (G) |

## Galluoedd ychwanegol ar gyfer iechyd carchardai a dalfeydd

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **10g.** Cynnal ffiniau proffesiynol er mwyn osgoi unrhyw orfodaeth, llwgrwobrwyo neu ddylanwad posibl ar staff gan garcharorion. (S) | | | |

## 11. Adnabod a hyrwyddo gofal wedi'i lywio gan dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth

| Gwybodaeth a sgiliau | | | |
|---|---|---|---|
| **Hanfodol** | **Estynedig** | **Uwch** | **Ymgynghorol** |
| **11a.** Gwybod sut i asesu, gofalu am a rheoli cleifion sy'n profi nifer o anfanteision yn eu cyswllt cyntaf, gan adlewyrchu dewis y claf lle bynnag y bo'n ymarferol a'u cyfranogiad yn eu gofal. (G)<br><br>**11b.** Ymwybyddiaeth o effaith gwasanaethau cynhwysiant iechyd a modelau pwrpasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ganlyniadau iechyd. (G)<br><br>**11c.** Gwybod pryd i gyfeirio claf sy'n profi nifer o anfanteision neu garcharor at weithiwr proffesiynol neu wasanaeth iechyd arall, yn fewnol neu'n allanol (G)<br><br>**11d.** Adnabod ac ymateb i unrhyw bryderon diogelu yn unol â phrotocolau sefydliadol. Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Diogelu Cymru<br><br>PREVENT: Canllawiau'r ddyletswydd Prevent: Cymru a Lloegr (2023) - GOV.UK (Saesneg yn unig) (K/S)<br><br>**11e.** Darparu cyngor hyrwyddo iechyd perthnasol i gleifion sy'n profi nifer o anfanteision pan fyddant yn cyflwyno eu hunain. (G) | **11a.** Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl estynedig o gyflyrau iechyd a sefyllfaoedd cymhleth a gyflwynir yn gyffredin mewn pobl sy'n profi nifer o anfanteision a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddarparu gofal. (G)<br><br>**11b.** Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dulliau iechyd cynhwysiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth a argymhellir gan NICE. (G)<br><br>**11c.** Sicrhau bod cleifion yn rhan o gyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio eu gofal a'r gefnogaeth sydd ei hangen. (S)<br><br>**11d.** Adnabod effaith eiddilwch ar bobl sy'n profi digartrefedd. (G)<br><br>**11e.** Adnabod pryd i ystyried a defnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Safonau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, gan geisio cymorth arbenigol o fewn tîm amlbroffesiynol a chynnal asesiadau gallu yn ôl yr angen o fewn cwmpas eich ymarfer eich hun. (S) | **11a.** Cymhwyso tystiolaeth, protocolau clinigol ac ymreolaeth broffesiynol i asesu a chynllunio triniaeth a gofal yn seiliedig ar anghenion y claf. (S)<br><br>**11b.** Cael mynediad at dystiolaeth briodol o ymyriadau effeithiol a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u gwerthuso er mwyn darparu gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth. (S)<br><br>**11c.** Adnabod yr heriau iechyd meddwl allweddol a allai fod angen ymyriadau arbenigol a'r rolau penodol a allai fod gan weithwyr proffesiynol yn y cyd-destun hwn. (G)<br><br>**11d.** Y gallu i ddehongli a rheoli gwybodaeth gymhleth iawn gan dynnu sylw at themâu, materion a blaenoriaeth y claf wrth ddefnyddio gwybodaeth glinigol i asesu risg a rheoli unrhyw flaenoriaethau clinigol brys. (S) | **11a.** Datblygu gweithdrefnau a phrotocolau i hyrwyddo arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant (S)<br><br>**11b.** Gwerthuso ymyriadau cynhwysiant i sicrhau eu bod yn bodloni cynlluniau strategol ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth statudol a chyfreithiol. (S) |

| Hanfodo | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **11f.** Dangos ystod eang o arbenigedd clinigol iechyd cynhwysiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y person, i gleifion sy'n profi nifer o anfanteision ar draws yr ystod oedran yn y boblogaeth leol o fewn eich cwmpas ymarfer. (S)<br><br>**11g.** Ymwybyddiaeth o gyflyrau iechyd sy'n ymddangos yn fwy cyffredin gyda phobl sy'n profi nifer o anfanteision gan gynnwys iechyd rhywiol, defnyddio sylweddau ac alcohol, hyfywedd meinwe a gofal clwyfau, adnabod firysau a gludir yn y gwaed (BBV) a sut a ble i gyfeirio o fewn cwmpas ymarfer. (S)<br><br>**11h.** Adnabod heriau iechyd meddwl, ymwybyddiaeth o hunanladdiad a hunan-niweidio a ble i gyfeirio cleifion. (G)<br><br>**11i.** Cynnal asesiad iechyd meddwl o fewn eich cwmpas ymarfer eich hun. (S)<br><br>**11j.** Y gallu i adnabod ffactorau sy'n gofyn am ymateb brys wrth asesu claf sy'n profi nifer o anfanteision. (S)<br><br>**11k.** Cydweithio â sefydliadau diogelu, statudol a thrydydd sector yn ôl yr angen i greu cynlluniau gofal unigol ac fel proses atgyfeirio ymlaen pan fo'n briodol. (S)<br><br>**11l.** Ymwybyddiaeth o'r protocolau a'r weithdrefn ar gyfer rhagnodi a rheoli meddyginiaethau yn ôl y perthnasedd i rôl a chwmpas ymarfer. (G) | **11f.** Adnabod y gwahaniaeth rhwng hunan-esgeulustod a chleifion sydd wedi esgeuluso eu hiechyd wrth asesu gallu. (S)<br><br>**11g.** Meithrin diwylliant o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y claf, gan hyrwyddo'r cysyniad o hunanofal a gofal dan arweiniad y claf lle bo modd, gan ddarparu hyrwyddo iechyd, addysg a chefnogaeth briodol. (S)<br><br>**11h.** Gwybod am effaith gwasanaethau cynhwysiant iechyd a modelau pwrpasol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar ganlyniadau iechyd. (G)<br><br>**11i.** Ymgymryd ag ymyriadau clinigol fel rheoli clwyfau yn ôl yr angen i'ch rôl eich hun ac o fewn cwmpas ymarfer. (S)<br><br>**11j.**Adnabod pwysigrwydd rheoli meddyginiaethau da a'i weithredu o fewn cwmpas ymarfer wrth gefnogi claf.<br><br>**11k.** Adnabod sgil-effeithiau meddyginiaeth o fewn cwmpas ymarfer wrth gefnogi claf. (S) | **11e.** Sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn gallu adnabod bregusrwydd cleifion o bob oed a'u cyfrifoldebau eu hunain a chyfrifoldebau sefydliadau eraill o ran deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau diogelu. (S)<br><br>**11f.** Gwybod am ddiagnosis deuol a'r cysyniad o deir-forbidrwydd yn effeithio ar iechyd corfforol gwael. (G)<br><br>**11g.** Gallu cynnal asesiad manwl o'r claf gan ystyried cyflyrau sylfaenol posibl fel oedran, rhyw, ethnigrwydd, presenoldeb cyflyrau eraill a phenderfynyddion cymdeithasol ehangach fel digartrefedd a thai a all newid neu guddio cyflwyniad symptomau ac arwyddion o anghenion iechyd corfforol a meddyliol. (S) | |

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **11m.** Datblygu perthynas therapiwtig â chleifion y gofelir amdanynt. (S)<br><br>**11n.** Gallu cael hanes a ffactorau seicogymdeithasol i roi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer problemau/sefyllfaoedd cleifion.<br><br>**11o.** Ymwybyddiaeth o'r nifer cynyddol o gleifion hŷn, y gefnogaeth sydd ei hangen oherwydd oedran a chyd-forbidrwydd a gofal lliniarol a gofal diwedd oes. (G) | **11l.** Bod yn ymwybodol o'r cyflyrau cydredol sy'n gysylltiedig ag angen iechyd meddwl a defnyddio sylweddau a/neu alcohol a'r rhyngweithiadau rhwng meddyginiaeth ar bresgripsiwn, alcohol a chyffuriau heb bresgripsiwn/anghyfreithlon gan gynnwys cyffuriau cyfreithlon a meddyginiaethau llysieuol. (G)<br><br>**11m.** Gallu cefnogi cleifion ag anghenion dysgu, niwroamrywiol a/neu anableddau corfforol, a'u galluogi i gael mynediad at asesiadau, gofal, triniaeth a chymorth arbenigol a phersonol a'u defnyddio gan gydnabod y gallai fod angen addasiadau rhesymol mewn dulliau ac ymyriadau sy'n eu cynnwys yn eu cynlluniau gofal. (S) | | |

## Galluoedd ychwanegol ar gyfer iechyd carchardai a dalfeydd

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **11p.** Darparu gofal yn seiliedig ar ganllawiau gan fframweithiau cyfreithiol a chyrff proffesiynol perthnasol, gan sicrhau bod y ddarpariaeth gofal yn bodloni'r un safonau â'r hyn a ddarperir mewn lleoliadau y tu allan i gyfiawnder troseddol.<br><br>**11q.** Cefnogi darparwyr gofal iechyd allanol sy'n ymweld yn ôl yr angen, er enghraifft yn ystod clinigau, sesiynau imiwneiddio a sgrinio iechyd. (S)<br><br>**11r.** Cynnal asesiadau iechyd corfforol a meddyliol noson gyntaf/derbynfa ac asesiadau iechyd corfforol a meddyliol eilaidd wrth dderbyn yn ôl yr angen ac o fewn cwmpas ymarfer (S). | **11u.** Gwybod am barhad gofal a chynlluniau gofal ar gyfer carcharorion sy'n cael mynediad at feddyginiaeth wrth adael y carchar. (G) | | |

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **11s.** Cynnal asesiadau iechyd corfforol a meddyliol ar adeg rhyddhau, neu drosglwyddo, i garchar neu ddalfeydd neu oddi yno, gan gynllunio gofal yn briodol a chyda chyfeiriadau ysgrifenedig at ddarparwyr allanol gyda chydsyniad y carcharor yn ôl yr angen ac o fewn cwmpas ymarfer(S). | | | |
| **11t.** Ymwybyddiaeth o'r protocolau a'r weithdrefn ar gyfer rhagnodi a rheoli meddyginiaethau mewn carchardai a dalfeydd oherwydd y gwerth mewnol a roddir ar feddyginiaethau gan garcharorion. (G) | | | |
| **11u.** Ymwybyddiaeth o'r heriau posibl i garcharorion gael mynediad at feddyginiaeth pan fyddant yn y carchar ac wrth adael y carchar. (G) | | | |
| **11v.** Asesu, rheoli ac atgyfeirio carcharorion â phroblemau iechyd meddwl (S) | | | |
| **11w.** Adnabod, asesu, rheoli ac atgyfeirio carcharorion sydd â dibyniaeth ar sylweddau/alcohol, gan gynnwys y rhai sy'n ymgymryd â rhaglen dadwenwyno, adnabod gorddos ac ymateb i ddiddyfnu a ffitiau (S) | | | |
| **11x.** Asesu, rheoli ac atgyfeirio carcharorion â chyflwr iechyd rhywiol. (S) | | | |
| **11y.** Egwyddorion, a gweithredu, atal clefydau a heintiau mewn carchardai a dalfeydd. (G) | | | |
| **11z.** Sut i ymateb i argyfwng gan gynnwys adfywio. (G) | | | |
| **11a.** Cymorth ôl-lawfeddygol i garcharorion pan fo'n berthnasol. | | | |
| **11b.** Gallu cefnogi carcharorion yn ystod cyfnodau anodd fel salwch teuluol neu brofedigaeth. (S) | | | |

## 12. Adnabod a hyrwyddo gofal sy'n ystyriol o drawma

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **12a.** Adnabod bod gofal sy'n seiliedig ar drawma, gan gynnwys mynegi emosiynau a nodi anghenion sylfaenol mewn ffordd ddi-farn, yn cael ei weithredu ar draws yr holl ymarfer clinigol a rhyngweithiadau pobl sy'n profi nifer o anfanteision (G)<br><br>**12b.** Ymwybyddiaeth o ofal sy'n ystyriol o drawma, gan sylweddoli y gall trawma effeithio ar unigolion, grwpiau a chymunedau (G)<br><br>**12c.** Adnabod ac ymateb i arwyddion a symptomau trawma mewn cleifion mewn ymarfer clinigol. (S)<br><br>**12d.** Adnabod pa mor gyffredin yw trawma a Digwyddiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ymhlith pobl sy'n profi nifer o anfanteision. (G)<br><br>**12e.** Adnabod pwysigrwydd deall sefyllfa a phrofiadau person yn y gorffennol a'r presennol. (G)<br><br>**12f.** Integreiddio dulliau sy'n ystyriol o drawma i ofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan ofyn 'Beth ddigwyddodd i chi?' yn hytrach na 'Beth sy'n bod arnoch chi?' (G) | **12a.** Adnabod a deall yr effaith y gall trawma ei chael ar berthnasoedd rhyngbersonol unigolyn, y gallu i ymddiried, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ryngweithio â darparwyr gwasanaethau. (G)<br><br>**12b.** Adnabod, deall ac ymdrin ag effaith trawma cymhleth a digwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod trwy ddefnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma yn effeithiol sy'n berthnasol i'ch rôl eich hun. (S)<br><br>**12c.** Integreiddio dulliau sy'n ystyriol o drawma i wasanaethau gofal a chymorth, gan ddeall achosion posibl ymddygiad a gwrthdaro. (S)<br><br>**12d.** Cymhwyso gwybodaeth ynghylch rheoli pobl sydd wedi'u diagnosio ag anhwylder personoliaeth neu drawma cymhleth yn effeithiol wrth ddarparu gofal. (S) | **12a.** Adnabod y risg o drawma dirprwyol a gorweithio mewn staff sy'n gweithio'n agos gyda phobl sy'n profi nifer o anfanteision a phwysigrwydd y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth seicolegol sydd ar gael. (G) | **12a.** Bod yn gyfrifol am sicrhau bod cefnogaeth seicolegol ar gael a'i chomisiynu i staff sy'n gweithio'n agos â phobl sy'n profi nifer o anfanteision sy'n agored i drawma ac sydd mewn perygl o orweithio. (G) |

## Galluoedd ychwanegol ar gyfer iechyd carchardai a dalfeydd

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **12g.** Adnabod y posibilrwydd cynyddol o ymddygiad ymosodol mewn carcharorion oherwydd effaith trawma cymhleth a digwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod. (S) | **12g.** Adnabod y posibilrwydd cynyddol o ymddygiad ymosodol mewn carcharorion oherwydd effaith trawma cymhleth a digwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod. (S) | **12g.** Adnabod y posibilrwydd cynyddol o ymddygiad ymosodol mewn carcharorion oherwydd effaith trawma cymhleth a digwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod. (S) | **12g.** Adnabod y posibilrwydd cynyddol o ymddygiad ymosodol mewn carcharorion oherwydd effaith trawma cymhleth a digwyddiadau niweidiol yn ystod plentyndod. (S) |
| **12h.** Defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma i leihau ymddygiad ymosodol a thrais mewn carcharorion. (S) | **12h.** Defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma i leihau ymddygiad ymosodol a thrais mewn carcharorion. (S) | **12h.** Defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma i leihau ymddygiad ymosodol a thrais mewn carcharorion. (S) | **12h.** Defnyddio dulliau sy'n ystyriol o drawma i leihau ymddygiad ymosodol a thrais mewn carcharorion. (S) |
| **12i.** Ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd niwroamrywiaeth mewn pobl sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder a pha offer sydd ar gael i alluogi asesiad (G) | **12i.** Ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd niwroamrywiaeth mewn pobl sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder a pha offer sydd ar gael i alluogi asesiad (G) | **12i.** Ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd niwroamrywiaeth mewn pobl sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder a pha offer sydd ar gael i alluogi asesiad (G) | **12i.** Ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd niwroamrywiaeth mewn pobl sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder a pha offer sydd ar gael i alluogi asesiad (G) |
| **12j.** Gallu adnabod pryd i ddefnyddio offer sydd wedi'u dilysu'n wyddonol (e.e. ASRS) a sut i gefnogi pobl i'w gwblhau. | **12j.** Gallu adnabod pryd i ddefnyddio offer sydd wedi'u dilysu'n wyddonol (e.e. ASRS) a sut i gefnogi pobl i'w gwblhau. | **12j.** Gallu adnabod pryd i ddefnyddio offer sydd wedi'u dilysu'n wyddonol (e.e. ASRS) a sut i gefnogi pobl i'w gwblhau. | **12j.** Gallu adnabod pryd i ddefnyddio offer sydd wedi'u dilysu'n wyddonol (e.e. ASRS) a sut i gefnogi pobl i'w gwblhau. |
| **12k.** Ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio presennol ar gyfer asesiadau ac ymyriadau niwroamrywiaeth pellach os oes angen (S) | **12k.** Ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio presennol ar gyfer asesiadau ac ymyriadau niwroamrywiaeth pellach os oes angen (S) | **12k.** Ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio presennol ar gyfer asesiadau ac ymyriadau niwroamrywiaeth pellach os oes angen (S) | **12k.** Ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio presennol ar gyfer asesiadau ac ymyriadau niwroamrywiaeth pellach os oes angen (S) |

## 13. Cefnogi llesiant staff y gwasanaeth iechyd cynhwysiant, a chynnal goruchwyliaeth glinigol adferol mewn perthynas â hwy.

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **13a.** Darparu goruchwyliaeth glinigol adferol orfodol wedi'i hamserlennu sy'n cael ei chofnodi ac yn unol â chanllawiau proffesiynol i gefnogi staff a lleihau'r posibilrwydd o straen a gorweithio. (S)<br><br>**13b.** Darparu cefnogaeth i staff drwy fentora a hyfforddiant. (S)<br><br>**13c.** Adnabod pwysigrwydd hunanofal a gwydnwch er mwyn hyrwyddo eich iechyd corfforol, meddyliol a llesiant personol eich hun. (S)<br><br>**13d.** Adnabod a rheoli eich gofid eich hun wrth glywed straeon dro ar ôl tro am drawma gan wybod ble, a sut, i gael mynediad at gefnogaeth (S) | **13a.** Nodi aelodau o'r tîm sydd angen cefnogaeth ychwanegol (S)<br><br>**13b.** Gallu cefnogi eraill yn eu llesiant a chyflawni eu gwaith a'u hamcanion. (S)<br><br>**13c.** Cefnogi staff a allai brofi trawma yn eu rôl a helpu i feithrin gwydnwch. (S) | **13a.** Bod yn gyfrifol am sicrhau bod goruchwyliaeth glinigol adferol orfodol wedi'i chynllunio yn amserlenni a rotas y tîm. (S) | **13a.** Arwain a galluogi diwylliant o lesiant i'r holl staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S) |

## 14. Ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol ac unrhyw risgiau posibl o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **14a.** Adnabod y risgiau posibl sy'n gysylltiedig â gweithio mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd a sut i geisio cefnogaeth. (G/S)<br><br>**14b.** Dangos y gallu i gynnal diogelwch personol a gweithredu mewn ffordd sy'n cynnal diogelwch cydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth. (S)<br><br>**14c.** Cydymffurfio â pholisïau a phrotocolau gweithio ar eich pen eich hun lleol i sicrhau eich diogelwch eich hun a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth er mwyn lleihau'r risg o niwed. (S)<br><br>**14d.** Gallu cymhwyso sgiliau rheoli gwrthdaro. (G) | **14a.** Asesu, gwerthuso a mynegi risgiau i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff gan ddefnyddio amrywiol offer, barn broffesiynol a phrofiad. (S)<br><br>**14b.** Defnyddio strategaethau i ddad-ddwysáu sefyllfaoedd yn ôl yr angen a rheoli risg drwy leihau a rheoli sefyllfaoedd anrhagweladwy. (S) | **14a.** Datblygu a gweithredu cynlluniau a strategaethau gweithredu rheoli risg sy'n ystyried barn pobl a diogelwch staff er mwyn atal niwed y gellir ei osgoi. (S)<br><br>**14b.** Monitro cydymffurfiaeth â'r polisi gweithio ar eich pen eich hun lleol i sicrhau nad yw staff yn rhoi eu hunain na chleifion mewn perygl o niwed. (S) | **14a.** Cymryd yr awenau ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau a strategaethau gweithredu rheoli risg sy'n ystyried barn pobl a diogelwch staff er mwyn atal niwed y gellir ei osgoi. (S) |

## Galluoedd ychwanegol ar gyfer iechyd carchardai a dalfeydd

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **14e.** Ymwybyddiaeth o'r risg uwch bosibl o drais, ymddygiad ymosodol a cham-drin geiriol mewn carchardai a dalfeydd ac o'r protocolau ar gyfer ceisio, a phryd i geisio, cymorth priodol. (G)<br>**14f.** Ymwybyddiaeth o'r gyfraith a chanllawiau lleol sy'n ymwneud â defnyddio arferion cyfyngol mewn carchardai a lleoliadau cyfiawnder troseddol. (G)<br>**14g.** Ymwybyddiaeth o, a dangos, y gweithdrefnau a ddefnyddir i dawelu sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus. (G/S)<br>**14h.** Gallu nodi'r angen am sesiynau dadfriffio ar ôl digwyddiad, a mynychu'r sesiynau hynny. (S)<br>**14i.** Adrodd a chofnodi pob digwyddiad yn unol â pholisïau lleol gan gynnwys digwyddiadau o gam-drin, ymddygiad bygythiol neu ymosodol a niwed i unigolion. (S) | **14c.** Rheoli sifftiau i sicrhau nad yw staff mewn perygl a bod diogelwch defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gynnal. (S)<br>**14d.** Cymhwyso canllawiau lleol ynghylch arferion cyfyngol ac adrodd am ddefnydd yn briodol. (G)<br>**14e.** Gweithio gyda'r tîm carchar/dalfa ehangach i ddarparu sesiynau dadfriffio i staff clinigol yn dilyn defnyddio arferion cyfyngol lle bo angen. (G)<br>**14f.** Gallu dad-ddwysáu sefyllfaoedd yn effeithiol. (S)<br>**14g.** Darparu cyfleoedd i staff gael mynediad at sesiynau dadfriffio yn dilyn digwyddiadau. (S)<br>**14h.** Ymchwilio i ddigwyddiadau o fewn gwasanaethau iechyd carchardai a dalfeydd yn unol â pholisi lleol. (S) | **14c.** Darparu ffynhonnell gefnogaeth a model rôl i staff llai profiadol wrth ddefnyddio technegau dad-ddwysáu. (G) | |

# Addysg

## 15. Cymryd rhan weithredol yn eich dysgu eich hun ac eraill

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **15a.** Fel dysgwr annibynnol, bod yn ymwybodol o'ch anghenion dysgu eich hun a dulliau i'w diwallu, gyda chefnogaeth trwy fentora, hyfforddi a goruchwyliaeth glinigol. (G) | **15a.** Cyfrannu at ddiwylliant o ddysgu sefydliadol parhaus ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. (S) | **15a.** Ymwybyddiaeth o'ch anghenion dysgu eich hun ar draws y 4 piler ymarfer uwch, a dulliau i'w diwallu, gyda chefnogaeth trwy fentora, hyfforddi a goruchwyliaeth glinigol. (S) | **15a.** Ymwybyddiaeth o'ch anghenion dysgu eich hun ar draws y 5 piler ymarfer ymgynghorol a dulliau i'w diwallu, gyda chefnogaeth trwy fentora, hyfforddi a goruchwyliaeth glinigol. (S) |
| **15b.** Ymgysylltu â diwylliant o ddysgu sefydliadol parhaus ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. (S) | **15b.** Lledaenu gwybodaeth i'r tîm amlbroffesiynol. (S) | **15b.** Arwain ac ysbrydoli diwylliant o ddysgu sefydliadol parhaus ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. (S) | **15b.** Creu a lledaenu gwybodaeth ar draws y tîm amlbroffesiynol, sefydliadau, sectorau a gwledydd am iechyd cynhwysiant. (S) |
| **15c.** Cynorthwyo i nodi anghenion dysgu a dulliau i ddiwallu anghenion dysgu a dulliau pobl eraill rydych chi'n eu goruchwylio. (S) | **15c.** Cyfrannu at greu a gweithredu cyfleoedd dysgu o fewn, a thu hwnt i'r tîm amlbroffesiynol ynghylch iechyd cynhwysiant. (S) | **15c.** Arwain a chynorthwyo'r broses o nodi anghenion dysgu a dulliau i ddiwallu anghenion dysgu a dulliau pobl eraill sy'n cael eu goruchwylio. (S) | **15c.** Creu, gweithredu a gwerthuso cyfleoedd dysgu i ddiwallu anghenion a nodwyd ar draws y tîm amlbroffesiynol, sefydliadau ac asiantaethau ynghylch iechyd cynhwysiant. (S) |
| **15d.**Cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu o fewn y tîm amlbroffesiynol, rhwydweithiau dysgu a darparwyr hyfforddiant eraill. (S) | **15d.** Cyfrannu at ddatblygu rhwydweithiau iechyd cynhwysiant lleol ac ymgysylltu mewn rhwydweithiau dysgu cenedlaethol. (S) | **15d.** Creu a lledaenu gwybodaeth ar draws y tîm amlbroffesiynol, sefydliadau a sectorau am iechyd cynhwysiant. (S) | |
| **15e.** Addysgu pobl leol sy'n profi nifer o anfanteision i'w grymuso i gael mynediad at wasanaethau a chynyddu llythrennedd a hyder iechyd i wneud y mwyaf o iechyd a llesiant. (S) | | **15e.** Creu, gweithredu a gwerthuso cyfleoedd dysgu i ddiwallu anghenion a nodwyd gan y tîm amlbroffesiynol ar gyfer iechyd cynhwysiant. (S) | |
| | | **15f.** Datblygu a chefnogi rhwydweithiau dysgu lleol a chenedlaethol am iechyd cynhwysiant. (S) | |
| | | **15g.** Addysgu pobl leol a rhanbarthol sy'n profi nifer o anfanteision i'w grymuso i gael mynediad at wasanaethau a chynyddu llythrennedd a hyder iechyd i wneud y mwyaf o iechyd a llesiant. (S) | |

# Ymchwil

## 16. Cymhwyso data, ymchwil a gwerthuso

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **16a.** Casglu a dadansoddi data sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd i lywio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. (S)<br><br>**16b.** Cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol a gweithredol, gan gasglu data a mesur canlyniadau i werthuso effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir, gan roi adborth i uwch gydweithwyr. (S)<br><br>**16c.** Cyfrannu at ddatblygu, coladu, monitro a gwerthuso data sy'n ymwneud â darparu a datblygu gwasanaethau, sicrhau ansawdd a gwella. (S) | **16a-** Ymwybyddiaeth o'r asesiad anghenion iechyd y boblogaeth a'i bwysigrwydd wrth lywio ymarfer.<br><br>**16a.** Amlygu meysydd o angen heb ei ddiwallu a thueddiadau anffafriol a datblygu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth hon. (S)<br><br>**16b.** Nodi a chymryd rhan mewn ymchwil ac archwiliadau i gynyddu, gwerthuso a gwella safonau gofal i gleifion. (S)<br><br>**16c.** Gweithredu ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth i wella gwasanaethau ac arferion yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl sy'n profi nifer o anfanteision. (S) | **16a.** Gallu gwerthfawrogi ac addasu casglu data, lle mae gwybodaeth yn anghyflawn neu'n groes i'w gilydd. (S)<br><br>**16b.** Dangos dealltwriaeth o ddulliau ymchwil systematig i hwyluso ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. (S)<br><br>**16C.** Gallu nodi pryd mae angen asesiad anghenion iechyd y boblogaeth a phwy all eu cefnogi i'w gynnal (S) | **16a.** Archwilio a dadansoddi data'r gweithlu a'r gymuned i lywio datblygiad cynlluniau gwella ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r gweithlu. (S)<br><br>**16b.** Dangos dealltwriaeth o gysyniadau gwella ansawdd a defnyddio dull trefnus, gan gynnwys archwiliadau a gwelliant ailadroddus o wasanaethau, gan ddefnyddio arloesedd lle bo'n briodol. (S)<br><br>**16c.** Dangos dealltwriaeth o'r dulliau o werthuso gwasanaethau a mesur effaith, gan gynnwys defnyddio canlyniadau a adroddwyd gan gleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. (S)<br><br>**16d.** Dylunio ac arwain ymchwil i gynhyrchu'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer ymarfer. (S)<br><br>**16e.** Ymwybyddiaeth o ddulliau asesu anghenion iechyd y boblogaeth (G)<br><br>**16f.** Gallu cyfrannu at gyd-ddatblygu methodolegau asesu anghenion iechyd y boblogaeth i lywio eu cynllunio, dylunio a darparu gwasanaethau (S) |

## 17. Galluogi datblygiadau a gwelliannau gwasanaeth

| Gwybodaeth a sgiliau | | | |
|---|---|---|---|
| **Hanfodol** | **Estynedig** | **Uwch** | **Ymgynghorol** |
| **17a.** Dangos ymrwymiad i wella gwasanaethau a newid trawsnewidiol ar gyfer poblogaethau cynhwysiant iechyd er mwyn lleihau anghydraddoldeb mynediad at wasanaethau ac integreiddio gofal iechyd a gofal cymdeithasol. (S)<br>**17b.** Gweithredu ar egwyddorion ansawdd a gwella gwasanaethau. (S) | **17a.** Sicrhau ymgysylltiad cleifion o'r broses o gymryd rhan i gyd-gynhyrchu o ran cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau er mwyn gwella gwasanaethau cynhwysiant. (S) | **17a.** Sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau sefydliadol ar waith i gynnal sicrwydd ansawdd gwasanaethau cynhwysiant. (S) | **17a.** Datblygu a chynnal prosesau a gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau sicrwydd ansawdd gwasanaethau cynhwysiant (S)<br>**17b.** Arwain a galluogi diwylliant o welliant parhaus mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S) |

# Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## 18. Darparu arweinyddiaeth

### Gwybodaeth a sgiliau

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **18a.** Cymryd cyfrifoldeb personol am eich perfformiad a'ch llesiant eich hun, gan gynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich gwaith a'ch amcanion eich hun, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau lleol, gyda chefnogaeth achlysurol. (S)<br><br>**18b.** Cymryd rhan mewn gwaith tîm amlbroffesiynol effeithiol a chymryd rhan mewn arweinyddiaeth dosturiol. (S) | **18a.** Cefnogi a chymryd rhan mewn gwaith tîm amlbroffesiynol effeithiol a hyrwyddo arweinyddiaeth dosturiol. (S) | **18a.** Gallu gweithio'n annibynnol i gynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich gwaith, amcanion a datblygiad eich hun ac eraill, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol. (S)<br><br>**18b.** Cefnogi a chymryd rhan mewn gwaith tîm amlbroffesiynol effeithiol a hyrwyddo arweinyddiaeth dosturiol. (S)<br><br>**18c.** Myfyrio'n barhaus ar eich rhagfarnau a'ch rhagdybiaethau eich hun ar gyfer meithrin twf personol a phroffesiynol wrth ddod yn arweinydd cynhwysol a thosturiol. (S) | **18a.** Gallu gweithio'n annibynnol i gynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich gwaith, amcanion a datblygiad eich hun ac eraill, gan ystyried anghenion a blaenoriaethau sefydliadol, rhanbarthol a chenedlaethol. (S)<br><br>**18b.** Creu ac arwain gwaith tîm amlbroffesiynol effeithiol a sefydlu arweinyddiaeth dosturiol a thrawsnewidiol ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant. (S)<br><br>**18c.** Cydweithio â chydweithwyr i sicrhau amgylchedd gwaith effeithiol, teg, cynhwysol a chadarnhaol ar gyfer y tîm ehangach a'r gwasanaeth cynhwysiant (S)<br><br>**18d.** Arwain y gwaith o brif ffrydio cynhwysiant a pherthyn i'ch sefydliad eich hun a chynlluniau ehangach. (S)<br><br>**18e.** Ymgymryd â'r cyfrifoldeb arweinyddiaeth allweddol dros bob arweinydd ar gynhwysiant o fewn eich sefydliad eich hun. (S)<br><br>**18f.** Ymgysylltu'n weithredol â datblygiad personol a phroffesiynol i sicrhau bod y meddwl diweddaraf a'r arfer rhagorol ynghylch cynhwysiant yn cael eu hintegreiddio i bob gweithgaredd. (S) |

## Strategy

### 19. Cyfrannu at strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, dylunio a gweithredu polisïau ar gyfer iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

**Gwybodaeth a sgiliau**

| Hanfodol | Estynedig | Uwch | Ymgynghorol |
|---|---|---|---|
| **19a.** Gwybod am strategaethau tegwch iechyd a chynhwysiant cymdeithasol lleol a chenedlaethol. (G) | **19a.** Gwybod am strategaethau tegwch iechyd a chynhwysiant cymdeithasol lleol a chenedlaethol. (G) | **19a.** Cyfrannu at ddatblygu, cyflawni a gweithredu cynlluniau a strategaethau cynhwysiant strategol eich sefydliad eich hun i wella mynediad a chanlyniadau iechyd pobl sy'n profi nifer o anfanteision. (S) | **19a.** Arwain ar ddatblygu, cyflawni a gweithredu cynlluniau a strategaethau cynhwysiant strategol eich sefydliad eich hun gyda'r tîm i wella mynediad a chanlyniadau iechyd pobl sy'n profi nifer o anfanteision. (S)<br>**19b.** Dylanwadu ar agendâu, strategaeth, cynllunio a chyflenwi gwasanaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cynhwysiant yn lleol ac yn genedlaethol. (S)<br>**19c.** Cymhwyso ystod o strategaethau rheoli newid i ymateb yn hyblyg ac yn arloesol i gyd-destunau gofal sy'n newid a'r angen am ddarpariaeth gwasanaeth ddiwygiedig ar gyfer gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd. (S) |

# Atodiadau

## Atodiad 1 Adnoddau Allweddol

1. Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Cymru ar gyfer Gofal Sylfaenol - Gofal Sylfaenol Un
2. Rhaglen Iechyd a Chynhwysiant Cymru - disgrifiad o'r gwasanaethau sy'n darparu Gofal Iechyd Sylfaenol i grwpiau agored i niwed ledled Cymru Mawrth 2024
3. Adnodd 2: Gofal Sylfaenol yn Seiliedig ar Le; Gwasanaethau Iechyd cynhwysiant
4. Datblygiad proffesiynol a hyfforddiant - Gofal Sylfaenol Un
5. Cyfeiriadur Cynhwysiant Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Iechyd 2024-26
6. Safonau cynhwysiant drafft ar gyfer nyrsys iechyd ar gyfer addysg ac ymarfer Mawrth 2023
7. Fframwaith cymhwysedd ymarferwyr gofal brys Cymru gyfan
8. Fframwaith gallu cyhyrysgerbydol amlbroffesiynol Cymru gyfan ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol wedi'i gysylltu â chanllawiau Portffolio AaGIC ar gyfer ymarfer estynedig, uwch ac ymgynghorol yng Nghymru
9. Nyrsys carchar - gyrfaoedd AaGIC
10. Fframwaith Cymhwysedd Sector Iechyd a Chyfiawnder (RCN): fframwaith-cymhwysedd-cyfiawnder-iechyd.pdf
11. Fframwaith proffesiynol AaGIC ar gyfer ymarfer estynedig, uwch ac ymgynghorol yng Nghymru 2023
12. Iechyd Cynhwysiant: Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Iechyd ADRODDIAD DIWEDD ASTUDIAETH Partneriaeth Arloesi Menter [Rhyngrwyd]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a80ef0040f0b62305b8df8c/NIHB_-_Inclusion_Health_education__Report.pdf
13. Fframwaith Ansawdd a Diogelwch - dysgu a gwella 2021 - porth arweinyddiaeth GIG Cymru rhaglen 3D AAGC www.llyw.cymru
14. Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Achosion Brys – llawlyfr polisi 2021 – 2026
15. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 – Anghydraddoldebau iechyd (T47) - Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 - Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
16. Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Diogelu Cymru
17. Canllawiau'r Ddyletswydd Atal: Cymru a Lloegr (2023) Prevent https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance

# Atodiad 2 Rhestr wirio ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a nodiadau myfyriol

## Strwythur Fframwaith

| Meysydd a Phileri | Galluoedd Allweddol |
|---|---|
| **MAES A**<br>Adnabod penderfynyddion ehangach iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd | **1.** Cydnabod penderfynyddion ehangach iechyd wrth gydnabod yr anghydraddoldebau posibl sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd<br>**2.** Glynu wrth ddeddfwriaeth, polisi a strategaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**3.** Adnabod sut mae epidemioleg yn effeithio ar wasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**4.** Ymwybyddiaeth o gymhwysedd diwylliannol |
| **MAES B**<br>Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision a dysgu ganddyn nhw, gan lywio'r system gofal iechyd a gweithio amlbroffesiynol a chydweithredol | **5.** Ymgysylltu â phobl sy'n profi nifer o anfanteision a dysgu o'u profiadau bywyd  er mwyn llywio ymarfer<br>**6.** Llywio'r system gofal iechyd<br>**7.** Gweithio amlbroffesiynol mewn partneriaeth a chydweithrediad ar draws ffiniau sefydliadol<br>**8.** Eiriol dros grwpiau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd a chleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau |
| **MAES C**<br>**Pileri Ymarfer** | |
| **Ymarfer Clinigol** | **9.** Cyfathrebu'n effeithiol o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**10.** Ymarfer yn broffesiynol, yn foesegol ac yn gyfreithiol mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd<br>**11.** Adnabod a hyrwyddo gofal wedi'i lywio gan dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth<br>**12.** Adnabod a hyrwyddo gofal sy'n ystyriol o drawma<br>**13.** Cefnogi llesiant staff y gwasanaeth iechyd cynhwysiant, a chynnal goruchwyliaeth glinigol adferol mewn perthynas â hwy.<br>**14.** Ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol ac unrhyw risgiau posibl o fewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd |
| **Addysg** | **15.** Cymryd rhan weithredol yn eich dysgu eich hun ac eraill |
| **Ymchwil** | **16.** Cymhwyso data, ymchwil a gwerthuso<br>**17.** Galluogi datblygu a gwella gwasanaethau |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **18.** Darparu arweinyddiaeth |
| **Strategaeth** | **19.** Cyfrannu at strategaethau lleol a chenedlaethol, dylunio a gweithredu polisïau ar gyfer iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd |

| **Teitl y cwrs / Galluoedd** | **Galluoedd wedi'u cwmpasu**<br>(gallwch godio gan ddefnyddio'r rhif gwybodaeth neu sgil a neilltuwyd i'r maes gallu neu biler ymarfer. Er enghraifft 1a K) | **Dyddiad Gwaith cwrs/ darllen/ myfyrio wedi'i gwblhau** | **Crynodeb o'ch dysgu a'ch myfyrdodau:**<br>• Pam wnes i ddewis y cwrs/ gweithgaredd hwn<br>• Beth ddysgais i?<br>• Sut ydw i'n mynd i gymhwyso'r dysgu hwn i'm gwaith? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad 3 Cyflyrau sy'n ymddangos mewn cleifion sy'n profi nifer o anfanteision mewn gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd

Mae'r cyflyrau canlynol yn fwy cyffredin mewn grwpiau sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth ac mewn carcharorion. Nid yw hon yn rhestr gyflawn:

- Hepatitis
- HIV
- Siffilis
- Clefydau a drosglwyddir yn rhywiol
- Twbercwlosis cudd a gweithredol
- Y clefyd crafu ag ymwrthedd
- Haint parasitig
- Rheoli heintiau croen, crawniadau ac wlserau fel canlyniadau defnyddio cyffuriau trwy chwistrellu
- Cyflyrau dermatolegol
- Thrombosis gwythiennau dwfn fel canlyniadau defnyddio cyffuriau trwy chwistrellu
- Emboli septig
- Sepsis
- Difftheria
- Anewrysmau/Ffug-anewrysmau
- Endocarditis bacteriol is-acíwt
- Clefydau hepatig a gastrolegol gan gynnwys llid y cefndedyn (pancreatitis), sirosis a hepatitis alcoholig
- Hyfywedd meinwe a rheoli clwyfau
- Hemochromatosis a chyflyrau genetig eraill
- Defnyddio alcohol gan gynnwys yfed niweidiol
- Difrod i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol (ARBD)
- Defnyddio sylweddau, gorddos, dadwenwyno
- Materion gynaecolegol
- Trais gan bartner agos a cham-drin domestig
- Anhwylder straen wedi trawma a heriau iechyd meddwl eraill
- Crawniadau deintyddol
- Bregusrwydd yn iau o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol

# Atodiad 4: Sut y datblygwyd y Fframwaith

Arweiniwyd datblygiad y fframwaith hwn gan Grŵp Llywio a ddarparodd arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad arbenigol. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys pobl o ystod eang o sefydliadau iechyd sy'n ymwneud â darparu a chefnogi gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y sector annibynnol a'r trydydd sector. Cafodd nifer o unigolion ychwanegol sy'n ymwneud â darparu a chefnogi gwasanaethau iechyd cynhwysiant, carchardai a dalfeydd yng Nghymru eu cyfweld, a rhoddasant adolygiad cymheiriaid o'r fframwaith hefyd.

Yn seiliedig ar adborth y Grŵp Llywio ac adborth arall ar y fframwaith, gwnaed gwelliannau a mireinio pellach, gan arwain at gyfarfod terfynol y Grŵp Llywio ym mis Mawrth 2025 i gytuno ar y cynnwys terfynol.

# Atodiad 5: Cydnabyddiaethau

## Cadeirydd

Dr Kerry Bailey, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Aelodau'r Grŵp Llywio

- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl a Chaethiwed Adferiad
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr
- Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Ffisiotherapi
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Crisis
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Deep End
- Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- CEF Berwyn
- CEF Caerdydd
- CEF Abertawe
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Prosiect Kaleidoscope
- Perfformiad a Gwella GIG Cymru - Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru - Rhaglenni Diogelu Iechyd
- Iechyd Cyhoeddus Cymru - Fferylliaeth
- Iechyd Cyhoeddus Cymru - Isadran gofal sylfaenol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru - Sgrinio
- Sefydliad Nyrsio Cymunedol y Frenhines
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol
- Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol - Gweithrediaeth y GIG
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Llywodraeth Cymru
- Hwylusydd: Sgiliau ar gyfer Iechyd - Ymddiriedolaeth Datblygu'r Gweithlu

ISBN 978-1-83766-798-7
© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ
Ffôn: +44 (0)29 2022 7744

**icc.gig.cymru**

E-bost: generalenquiries@wales.nhs.uk